Cyhoeddwyd y ddogfen hon yn y Gymraeg a'r Saesneg.



# Y Fframweithiau ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch Cyrff Dyfarnu Graddau'r DU

**Yr ail argraffiad**

Diweddarwyd ym mis Chwefror 2024

# Cynnwys

**Gair am yr argraffiad hwn** ... **1**

**Diffiniadau** ... **2**

**Y defnydd a wneir o'r Fframweithiau** ... **4**

**Y Fframweithiau ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch Cyrff Dyfarnu Graddau'r DU** ... **4**

**Y berthynas rhwng y ddogfen hon a'r Cod Ansawdd** ... **5**

**Y Fframweithiau ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch Cyrff Dyfarnu Graddau'r DU** ... **6**

1 Cyflwyniad ... 6

2 Prif nodweddion y Fframweithiau ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch Cyrff Dyfarnu Graddau'r DU ... 6

3 Y Fframweithiau a'u lefelau ... 11

4 Y disgrifyddion cymhwyster ... 15

5 Defnyddio disgrifyddion cymhwyster y DU ... 30

6 Cyfrifoldebau am weithredu agwedd tuag at ddyfarnu cymwysterau sy'n seiliedig ar ddeilliannau dysgu ... 31

**Atodiad A: Aelodau'r grŵp cynghori (ar gyfer fersiwn 2014)** ... **35**

**Atodiad B: Disgrifyddion Dulyn** ... **37**

**Atodiad C: Tabl dangosol o gredydau** ... **41**

**Atodiad D: Disgrifiadau o ddosbarthiadau safonau graddau sydd ar lefel 6 y FHEQ neu lefel 10 y FQHEIS** ... **45**

## Gair am yr argraffiad hwn

Yn yr ail argraffiad hwn o'r *Fframweithiau ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch Cyrff Dyfarnu Graddau'r DU*, mae diwygiadau i'r cyfeiriadau at y Cod Ansawdd Addysg Uwch a'r ffordd y mae sefydliadau'n cael eu hadolygu. Bwriedir y diweddariadau hyn er mwyn cymryd i ystyriaeth y newidiadau niferus a gafwyd yn nhrefniadau ansawdd y DU, yn arbennig yn Lloegr, ers cyhoeddi argraffiad cyntaf y ddogfen 'Fframweithiau' hon yn 2014. Diweddarwyd termau diffiniedig, a chynhwyswyd y disgrifiadau o'r pedwar prif ddosbarthiad safonau graddau baglor gydag anrhydedd, a gyhoeddwyd ar wahân yn y gorffennol fel atodiad ar wahân i'r ddogfen hon. Mae'r rhain yn cynrychioli diweddariadau bach ac mae prif elfennau'r *Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch Cyrff Dyfarnu Graddau yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon* (FHEQ) a'r *Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Sefydliadau Addysg Uwch yn yr Alban* (FQHEIS) yn parhau yr un fath.

# Diffiniadau

**Corff dyfarnu graddau**
Sefydliad sydd â'r pŵer i ddyfarnu graddau, ac mae'r pwerau hyn wedi eu cyflwyno drwy Siarter Frenhinol, neu o dan Adran 76 *Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992*, neu dan Adran 48 *Deddf Addysg Bellach ac Uwch (Yr Alban) 1992*, neu drwy Fwla Pabaidd, neu, ers 1999, drwy ddyfarniad y Cyfrin Gyngor ar gyngor QAA, neu, yn Lloegr, drwy ddyfarniad y Swyddfa Myfyrwyr o dan Adran 42 *Deddf Addysg Uwch ac Ymchwil 2017*.

**Credyd**
Ffordd o fesur a chydnabod dysgu, lle bynnag a phryd bynnag y cyflawnir y dysgu hwnnw. Dyfernir credyd i gydnabod deilliannau dysgu a gyflawnwyd ar lefel benodol.

**Cwrs (astudio)**
Cwrs astudio cymeradwy sy'n darparu profiad dysgu cydlynol ac sydd fel arfer yn arwain at gymhwyster. Mae hyn yn cynnwys rhaglenni ymchwil.

**Cyfadfer**
Yr arfer o ganiatáu i un neu fwy o'r modiwlau gael eu methu o fymryn bach (er enghraifft, dim mwy na 5-10% yn is na'r marc pasio gosodedig) a dyfarnu credyd iddynt, yn aml iawn am fod y perfformiad academaidd wedi bod yn gyffredinol dda.

**Cylchoedd**
Lefelau olynol sydd wedi eu nodi gan Broses Bologna (cylch byr yn ystod y cylch cyntaf, y cylch cyntaf, yr ail gylch a'r trydydd cylch) y mae holl gymwysterau addysg uwch Ewrop ynddynt.

**Cymhwyster**
Gradd, diploma neu dystysgrif a ddyfernir gan awdurdod cymwys (corff dyfarnu graddau yn y cyd-destun yma) i gydnabod bod deilliannau astudio penodol cwrs neu gymhwyster wedi eu cyflawni yn dilyn cyflawniad llwyddiannus cwrs astudio addysg uwch cydnabyddedig.

**Cymhwyster canolradd**
Cymhwyster ar wahân a allai gael ei ddyfarnu ar lefel neu gam penodol ran o'r ffordd drwy gwrs astudio hirach ac y gall myfyriwr gofrestru ar ei gyfer wrth iddynt ddechrau astudio.

**Cymhwyster wrth adael cwrs**
Cymhwyster a allai gael ei ddyfarnu wrth gwblhau pwynt canolog astudiaethau mewn cwrs astudio hirach (pan fydd myfyriwr yn gadael y cwrs) ond nad yw'r myfyriwr wedi cofrestru ar ei gyfer ar y dechrau.

**Cyrff PSRh**
Cyrff proffesiynol, statudol a rheoleiddio

**Deilliannau dysgu cwrs**
Datganiad o'r hyn y disgwylir i ddysgwr ei wybod, ei ddeall a/neu allu ei ddangos ar ôl cwblhau cwrs astudio penodol (sy'n arwain at gymhwyster). Datganiadau o ddeilliannau dysgu cyfannol yw'r rhain, nid cyfanswm deilliannau dysgu'r modiwlau unigol yn unig.

**Disgrifydd cymhwyster**
Datganiadau generig am y deilliannau astudio sy'n gysylltiedig â chymhwyster penodol. Maen nhw'n darparu pwyntiau cyfeirio clir sy'n disgrifio prif ddeilliannau'r cymhwyster.

**Disgrifydd lefel**
Datganiad am nodweddion generig deilliannau dysgu ar lefel benodol mewn fframwaith cymwysterau, a ddefnyddir fel pwynt cyfeirio.

**EQF**
Fframwaith Cymwysterau Ewrop ar gyfer Dysgu Gydol Oes

**Esgusodi**
Yr arfer o ganiatáu i fyfyrwyr fethu a pheidio derbyn credydau am un neu fwy o'r modiwlau o fewn cwrs gradd, ac eto gymhwyso o hyd i dderbyn eu gradd.

**FfCChC**
Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru

**Y Fframweithiau**
Y ddogfen gyfunol sy'n cynnwys y FHEQ a'r FQHEIS (y ddogfen hon).

**FHEQ**
Y Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch Cyrff Dyfarnu Graddau yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon

**FQHEIS**
Y Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Sefydliadau Addysg Uwch yn yr Alban

**Lefelau fframwaith**
Ystod o gamau sydd â lefelau cyrhaeddiad tebyg sydd wedi eu mynegi'n olynol, y gall sefydliadau osod eu cymwysterau yn eu herbyn.

**Pwyntiau cyfeirio**
Pwyntiau cyfeirio yw gofynion neu bwyntiau cymharu y cytunir arnynt ar y cyd (ar lefelau rhyngwladol a chenedlaethol ac ar lefel pob corff dyfarnu graddau unigol) y mae cyrff dyfarnu graddau'n eu defnyddio i sicrhau bod eu safonau academaidd yn gyson.

**QF-EHEA**
Y Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Ardal Addysg Uwch Ewrop

**Safon academaidd drothwy**
Y lefel isaf o gyflawniad sy'n dderbyniol y mae'n rhaid i fyfyriwr ei dangos er mwyn bod yn gymwys i dderbyn dyfarniad academaidd. Ar gyfer cymwysterau cyfatebol, caiff y lefel trothwy o gyflawniad ei chytuno ar draws y DU a'i disgrifio gan y disgrifyddion cymhwyster sydd wedi eu nodi yn fframweithiau'r DU ar gyfer cymwysterau addysg uwch a safonau cydnabyddedig y sector gan y Swyddfa Myfyrwyr.

**SCQF**
Fframwaith Credydau a Chymwysterau'r Alban

## Y defnydd a wneir o'r Fframweithiau

Yn y DU, mae'r cyfrifoldeb am addysg wedi ei ddatganoli i bob un o'i phedair gwlad. Mae gwahaniaethau rhwng pedair gwlad y DU o ran y systemau addysg a ddefnyddir, y cymwysterau a gynigir, a sut y mae'r rhain yn cael eu rheoleiddio. Mae'r gwahaniaethau ar eu hamlycaf mewn addysg gyffredinol ac uwchradd. O ganlyniad, defnyddir nifer o wahanol fframweithiau credydau a chymwysterau ar draws y DU (gwelwch baragraffau 2.23 i 2.29).

Mae'r ddogfen hon yn canolbwyntio ar fframweithiau addysg uwch yn unig. Mae dau fframwaith cyfochrog ar gyfer cymwysterau addysg uwch cyrff dyfarnu graddau'r DU - un sy'n berthnasol i'r Alban ac un arall i weddill y DU:

- *Y Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch Cyrff Dyfarnu Graddau yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon* (FHEQ)
- *Y Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Sefydliadau Addysg Uwch yn yr Alban* (FQHEIS).

Gofynnir i ddarparwyr yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon gadw at y fframwaith cyflawn sy'n berthnasol i'w gwlad. Yn Lloegr, mabwysiadwyd rhannau o'r fframwaith fel safonau cydnabyddedig y sector. Mae'r rhain yn rhan o'r gofynion rheoleiddiol y mae'n rhaid i ddarparwyr sydd wedi eu cofrestru gyda'r Swyddfa Myfyrwyr gadw atynt yn Lloegr drwy gydymffurfio ag amod B5 o gofrestriad parhaus. Dylai darparwyr sydd wedi eu cofrestru yn Lloegr gyfeirio at fframwaith rheoleiddio'r Swyddfa Myfyrwyr, yn cynnwys y safonau a gydnabyddir gan y sector.

## Y Fframweithiau ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch Cyrff Dyfarnu Graddau'r DU

Pwyntiau cyfeirio yw gofynion neu bwyntiau cymharu y cytunir arnynt ar y cyd (ar lefelau rhyngwladol a chenedlaethol ac ar lefel pob corff dyfarnu graddau unigol) y mae cyrff dyfarnu graddau'n eu defnyddio i sicrhau bod eu safonau academaidd yn gyson. Fframweithiau cymwysterau cenedlaethol yw strwythurau ffurfiol y mae'r gwledydd yn eu mabwysiadu i ddiffinio eu systemau cymwysterau. Yn gyffredinol, maent yn pennu hierarchaeth lefelau cymwysterau mewn trefn esgynnol ac yn nodi'r gofynion generig ar gyfer dyfarnu cymwysterau ar bob un o'r lefelau hyn.

Mae'r fframweithiau'n dangos pa gymwysterau sydd ar yr un lefel ac yn awgrymu sut y gallai un cymhwyster arwain at un arall, naill ai ar yr un lefel neu ar lefel uwch. Maen nhw'n disgrifio continwwm o ddysgu sy'n caniatáu i unrhyw gymwysterau newydd gael eu gosod o fewn y system addysg. Trwy aseinio lefelau i gymwysterau, hyrwyddir disgrifiad a marchnata cyson a chywir i'r cymwysterau gan y rheiny sy'n eu dyfarnu nhw. Mae fframweithiau cymwysterau cenedlaethol yn darparu cyd-destun ar gyfer llunio, adolygu a datblygu cymwysterau.

Mae pob un o'r fframweithiau'n pennu hierarchaeth lefelau cymwysterau ac yn disgrifio'r cyflawniad cyffredinol a ddisgwylir gan ddalwyr y prif fathau o gymwysterau ar bob un o'r lefelau. Yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, gofynnir i gyrff dyfarnu graddau ddefnyddio'r fframwaith/fframweithiau perthnasol wrth osod a chynnal safonau academaidd. Wrth iddynt ddyfarnu cymwysterau, disgwylir iddyn nhw sicrhau bod gofynion y Fframweithiau'n cael eu bodloni. Mae pob rhyddid i ddarparwyr yn Lloegr ddefnyddio'r fframweithiau, ond mae gofyn i ddarparwyr sydd wedi eu cofrestru gyda'r Swyddfa Myfyrwyr gydymffurfio ag amod B5 o gofrestriad parhaus sy'n nodi safonau'r Swyddfa Myfyrwyr a gydnabyddir gan y sector.

Mae'r Fframweithiau'n gyfrwng pwysig i gyrff proffesiynol, statudol a rheoleiddio (cyrff PSRh) wrth ddiffinio a defnyddio cymwysterau yng nghyd-destun eu prosesau ar gyfer rhoi cydnabyddiaeth ac achrediad proffesiynol. Hefyd, mae'r Fframweithiau'n darparu gwybodaeth i sicrhau bod modd cymharu safonau academaidd yn rhyngwladol, yn arbennig yng nghyd-destun Ewrop, ac maent yn cefnogi'r gallu i fod yn rhyngwladol gystadleuol, ac yn hwyluso symudedd myfyrwyr a graddedigion.

## Y berthynas rhwng y ddogfen hon a'r Cod Ansawdd

Mae Cod Ansawdd Addysg Uwch y DU (y Cod Ansawdd) yn ymgorffori dealltwriaeth gyffredin sector addysg uwch y DU o arferion yn ymwneud ag ansawdd. Mae'n diogelu buddiannau'r myfyrwyr a'r cyhoedd ac yn hyrwyddo enw da sector addysg uwch y DU am fod ymysg y gorau yn y byd.

Mae'r Cod Ansawdd yn disgrifio'r egwyddorion y cytunwyd arnynt gan y sector ar gyfer rheoli ansawdd ym maes addysg uwch drwy'r DU gyfan. Mae'r rhain yn cynnwys egwyddorion megis pwysleisio rôl y darparwyr yn y gwaith o sicrhau ansawdd y cyfleoedd dysgu y maent yn eu cynnig i'w myfyrwyr, cefnogi ymgysylltiad y myfyrwyr, a sicrhau y defnyddir pwyntiau cyfeirio allanol er mwyn cefnogi cywirdeb y dyfarniadau ac ansawdd y ddarpariaeth.

Datblygwyd argraffiad 2018 y Cod Ansawdd gan QAA ar ran y Pwyllgor Sefydlog Asesu Ansawdd i'r DU (UKSCQA). Mae'r Cod Ansawdd yn berthnasol i ddarparwyr addysg uwch ymhob un o bedair gwlad y DU. Mae'n bwynt cyfeirio allweddol ar gyfer y trefniadau ansawdd yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Yn Lloegr, nid yw egwyddorion ac arferion y Cod Ansawdd yn ofynion rheoleiddiol, ond mae modd i ddarparwyr eu defnyddio i hysbysu eu dulliau o reoli ansawdd, er mwyn sicrhau eu bod yn gymaradwy ar draws y DU ac i sicrhau eu hamlygrwydd rhyngwladol.

Ar adeg cyhoeddi'r ddogfen hon, mae'r Cod Ansawdd wrthi'n cael ei adolygu drwy ymgynghoriad â sector addysg uwch y DU er mwyn sicrhau ei fod yn dal yn werthfawr i fyfyrwyr a staff ledled y DU.

# Y Fframweithiau ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch Cyrff Dyfarnu Graddau'r DU

## 1 Cyflwyniad

1.1 Datblygwyd y ddogfen hon i gefnogi staff academaidd a staff proffesiynol sy'n gweithio ym maes addysg uwch i gyflawni eu cyfrifoldebau proffesiynol am:

- sefydlu rheoliadau a fframweithiau academaidd y cyrff dyfarnu graddau sy'n llywio sut y maent yn dyfarnu cymwysterau
- osod a chynnal safonau academaidd, yn eu sefydliadau eu hunain ac wrth weithio fel arholwyr allanol
- groesgyfeirio fframweithiau cymwysterau addysg uwch y DU yn ffurfiol â fframweithiau cymwysterau yn Ewrop neu mewn gwledydd eraill.

## 2 Prif nodweddion y Fframweithiau ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch Cyrff Dyfarnu Graddau'r DU

### Y statws a'r cylch gwaith

2.1 Mae fframweithiau cymwysterau addysg uwch y DU yn berthnasol i raddau, diplomâu, tystysgrifau a chymwysterau academaidd eraill ar lefel 4 neu'n uwch yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, ac ar lefel 7 SCQF neu'n uwch yn yr Alban, a ddyfernir gan gyrff dyfarnu graddau wrth iddynt ddefnyddio eu pwerau dyfarnu graddau. Mae'r Fframweithiau'n berthnasol, lle bynnag y darperir y ddarpariaeth addysgol neu pwy bynnag sy'n ei darparu. Nid ydynt yn berthnasol i raddau er anrhydedd neu ddyfarniadau er anrhydedd eraill, am nad yw'r rheiny'n gymwysterau academaidd.

2.2 Yn y DU, mae'r cyrff dyfarnu graddau'n dyfarnu eu cymwysterau eu hunain. Mae'r ymreolaeth hon yn golygu bod cyrff dyfarnu graddau'n gyfrifol am osod a chynnal safonau academaidd ac ansawdd y cymwysterau y maent yn eu dyfarnu. Mae pob corff dyfarnu graddau yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn sicrhau bod eu cymwysterau'n cael eu dyfarnu yn unol â'r fframwaith perthnasol. Yn Lloegr, mae modd i ddarparwyr ddefnyddio'r fframweithiau, ond mae gofyn i ddarparwyr sydd wedi eu cofrestru gyda'r Swyddfa Myfyrwyr gydymffurfio â'i hamod B5 o gofrestriad parhaus sy'n nodi safonau'r Swyddfa Myfyrwyr a gydnabyddir gan y sector. Nid yw'r FHEQ na'r FQHEIS yn gweithredu fel cofrestr o gymwysterau.

2.3 Mae hawl gan ddarparwyr addysg honni bod eu cymwysterau wedi eu haseinio i lefel yn fframweithiau cymwysterau addysg uwch y DU, ar yr amod bod y cymwysterau hynny'n cael eu dyfarnu gan gorff dyfarnu graddau cymeradwy.

### Y nodau

2.4 Prif nodau fframweithiau cymwysterau addysg uwch y DU yw:

- darparu'r prif bwyntiau cyfeirio cenedlaethol i ddarparwyr addysg uwch a'u harholwyr allanol wrth osod ac asesu safonau academaidd
- hyrwyddo dealltwriaeth gyffredin o'r gofynion a'r deilliannau sy'n gysylltiedig â chymwysterau nodweddiadol drwy hyrwyddo defnydd cyson o deitlau cymwysterau ar draws y sector addysg uwch
- helpu i adnabod llwybrau cynnydd posibl, yn arbennig yng nghyd-destun dysgu gydol oes.

2.5 O ganlyniad, mae fframweithiau'r DU yn galluogi i ddarparwyr addysg uwch gyfleu'r cyflawniadau a'r priodoleddau a gynrychiolwyd gan deitlau cymwysterau addysg uwch nodweddiadol i gyflogwyr, ysgolion, rhieni, myfyrwyr cyfredol a darpar fyfyrwyr, cyrff PSRh a rhanddeiliaid eraill.

## Y dull

2.6 Gofynion sylfaenol fframweithiau'r DU yw bod cymwysterau'n cael eu dyfarnu ar sail tystiolaeth o gyflawniad deilliannau dysgu (a fynegir yn nhermau gwybodaeth, dealltwriaeth a galluoedd) a chyrhaeddiad, yn hytrach na nifer y blynyddoedd astudio. Adwaenir hyn fel agwedd tuag at ddyfarnu cymwysterau sy'n seiliedig ar ddeilliannau dysgu.

2.7 Mae disgrifyddion cymhwyster yn allweddol i'r gofynion hyn. Mae disgrifydd cymhwyster yn nodi'r deilliannau generig a'r priodoleddau generig a ddisgwylir ar gyfer dyfarnu math arbennig o gymhwyster (er enghraifft, gradd baglor gydag anrhydedd). Mae'r disgrifyddion cymhwyster sydd wedi eu nodi yn fframweithiau'r DU yn disgrifio'r safonau academaidd trothwy ar gyfer y mathau hynny o gymwysterau (yn nhermau lefelau gwybodaeth a dealltwriaeth) a'r mathau o allu y mae disgwyl i ddalwyr y cymwysterau perthnasol eu cyrraedd a'u dangos.

2.8 Yn ogystal â'r disgrifyddion trothwy, mae fframweithiau'r DU hefyd yn amlinellu disgrifyddion ar gyfer cyflawniad ar bob lefel dosbarthiad ar gyfer gradd baglor. Mae'r disgrifyddion hyn i'w gweld yn Atodiad D y ddogfen hon.

2.9 Daw'r deilliannau a'r priodoleddau sydd wedi eu disgrifio mewn disgrifyddion cymhwyster o'r dysgu a wnaethpwyd wrth gwblhau cyrsiau astudio cydlynol. Mae gan gyrsiau astudio unigol ddeilliannau dysgu cwrs sy'n nodi'r deilliannau dysgu a fwriedir ar gyfer y cwrs hwnnw y mae'n rhaid eu cyflawni cyn i gorff dyfarnu graddau unigol ddyfarnu cymhwyster penodol. Mae angen i ddeilliannau dysgu'r cwrs alinio â'r disgrifyddion cymhwyster perthnasol.

2.10 Mae nifer o wahanol gamau ymhob un o fframweithiau'r DU, a elwir yn lefelau fframwaith. Mae'r rhain yn adlewyrchu gwahanol lefelau penodol o gyflawniad deallusol. Yn gyffredinol, mae pob lefel yn cynnwys band o gymwysterau sy'n rhannu lefelau cyrhaeddiad tebyg. Mae lefelau fframwaith yn hwyluso dealltwriaeth o'r ffordd y mae cymwysterau addysg uwch ar wahanol lefelau mewn fframwaith penodol yn berthnasol i'w gilydd. Hefyd, maen nhw'n helpu i gymharu gwahanol fathau o gymwysterau sydd ar yr un lefel mewn fframwaith penodol neu i gymharu cymwysterau ar lefel debyg yn y gwahanol fframweithiau cenedlaethol ar gyfer credydau a chymwysterau (gwelwch baragraff 2.23).

2.11 Hefyd, mae fframweithiau cymwysterau addysg uwch y DU wedi eu seilio ar yr egwyddor bod trefnau enwi cyson ar gyfer y prif fathau o gymwysterau (er enghraifft, gradd, diploma ôl-raddedig) yn cyfleu gwybodaeth ddibynadwy am lefel, natur a maes yr astudio (gwelwch baragraffau 6.8 i 6.19).

## Y defnydd a wneir o'r Fframweithiau

2.12 Mae'r Cod Ansawdd yn gofyn i ddarparwyr sicrhau bod safonau academaidd eu cyrsiau'n bodloni gofynion y fframwaith cymwysterau cenedlaethol perthnasol.

2.13 Nid yw darparwyr addysg uwch sydd heb bwerau dyfarnu graddau, ond sy'n gweithio gyda chyrff dyfarnu graddau i ddarparu cyrsiau sy'n arwain at gymwysterau addysg uwch, yn cario yr un cyfrifoldebau am safonau academaidd. Fodd bynnag, mae angen iddynt ddeall sut mae safonau academaidd trothwy'n cael eu gosod a'u cynnal, ac maent yn gyfrifol am gynnal safonau academaidd y corff dyfarnu graddau.

## Sicrhau ansawdd

2.14 Yn y DU, mae'r cyfrifoldeb am addysg uwch wedi ei ddatganoli i bob un o'i phedair gwlad, ac mae'r dolenni isod yn arwain at ddogfennau sy'n disgrifio eu dulliau o reoli ansawdd:

- Lloegr: Fframwaith rheoleiddio'r Swyddfa Myfyrwyr
- Gogledd Iwerddon: Sicrwydd Ansawdd Addysg Uwch Gogledd Iwerddon
- Yr Alban: Y Fframwaith Gwella Ansawdd yn yr Alban
- Cymru: Y Fframwaith Asesu Ansawdd ar gyfer Cymru.

2.15 Mae cyrff dyfarnu graddau'n gosod a chynnal safonau academaidd ac ansawdd cyrsiau astudio drwy ddefnyddio amrediad eang o drefnau sicrhau ansawdd mewnol soffistigedig sydd wedi eu tanategu gan egwyddorion sy'n gyffredin i'r sector cyfan.

## Y statws yn Ewrop

2.16 Mae darparwyr addysg uwch, myfyrwyr a chyflogwyr yn gweithredu ac yn cystadlu mewn cyd-destun rhyngwladol fwy a mwy. Mae fframweithiau cymwysterau addysg uwch y DU yn bodloni disgwyliadau Datganiad Bologna ac felly maent yn alinio â'r Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Ardal Addysg Uwch Ewrop (QF-EHEA). Mae'r QF-EHEA yn darparu mecanwaith ar gyfer cydberthyn fframweithiau cymwysterau cenedlaethol y gwahanol wledydd â'i gilydd. Mae gofyn i bob un o'r 49 o wledydd sy'n cymryd rhan ym Mhroses Bologna sefydlu fframweithiau cenedlaethol ar gyfer cymwysterau addysg uwch y sicrheir eu hansawdd gan gorff cymwys, a dilysu bod eu fframweithiau'n gyfatebol â'r QF-EHEA.

2.17 Yn y QF-EHEA, defnyddir y term 'cylch' i ddisgrifio'r tair lefel olynol sydd wedi eu nodi ar gyfer Proses Bologna. Dyma'r cylch cyntaf (a allai gynnwys cymwysterau cylch byr - gwelwch baragraff 2.19), yr ail gylch a'r trydydd cylch, y mae holl gymwysterau addysg uwch Ewrop wedi eu lleoli ynddynt. Mewn termau cyffredinol, mae'r cylch cyntaf yn cyfateb â chymwysterau israddedig (sef graddau baglor fel arfer), ac mae'r ail gylch a'r trydydd cylch yn cyfateb â chymwysterau ôl-raddedig (sef graddau meistr a graddau doethuriaeth fel arfer, yn y drefn honno).

2.18 Yn debyg i fframweithiau cymwysterau addysg uwch y DU, mae'r QF-EHEA yn nodi disgrifyddion cymhwyster generig ar gyfer pob cylch, a elwir yn 'Ddisgrifyddion Dulyn', sy'n bwynt cyfeirio rhyngwladol.[1] Mae'r rhain yn disgrifio'r galluoedd a chyflawniadau nodweddiadol sy'n gysylltiedig â chymwysterau sy'n arwyddo cwblhad pob cylch. Mae Disgrifyddion Dulyn wedi eu nodi yn Atodiad B y ddogfen hon, ac mae modd i ddarparwyr addysg uwch eu defnyddio fel pwynt cyfeirio ychwanegol.

2.19 Mewn nifer o wledydd eraill yn Ewrop, yn debyg i'r DU, mae amrywiaeth o gymwysterau addysg uwch ar gael i fyfyrwyr sydd wedi gwneud cwrs astudio yn ystod cylch cyntaf y QF-EHEA, ond nad ydynt yn cynrychioli maint llawn y cyflawniad ar gyfer y cylch hwn. Cyfeirir at y cymwysterau hyn fel cymwysterau cylch byr addysg uwch (o fewn y cylch cyntaf neu dim ond wedi eu cysylltu â'r cylch cyntaf). Gallai cymwysterau o'r fath baratoi myfyrwyr ar gyfer byd gwaith gan hefyd ddarparu paratoad ar gyfer, a mynediad i, gyrsiau sydd ar lefel diwedd y cylch cyntaf.

2.20 Mae Tabl 1 (ar dudalen 12) yn dangos y berthynas rhwng y **lefelau** a osodir yn y ddau fframwaith ar gyfer cymwysterau addysg uwch y DU a'r **cylchoedd** (cylch byr, y cylch cyntaf, yr ail gylch a'r trydydd cylch) yn y QF-EHEA.

2.21 Yn ogystal, cytunodd Senedd Ewrop ar Fframwaith Cymwysterau Ewrop ar gyfer Dysgu Gydol Oes (EQF) ym mis Ebrill 2008. Mae fframweithiau cymwysterau addysg uwch y DU, sydd ag wyth lefel, yn gyfatebol â'r fframwaith hwn. Cafodd cyfatebiaeth â'r EQF ei ddilysu'n gyntaf

---

[1] Datblygwyd Disgrifyddion Dulyn yn wreiddiol gan y Cyd-fenter Ansawdd [Joint Quality Initiative (JQI)] yn 2004.

gan QAA yn 2006 ar gyfer y FQHEIS ac yn 2008 ar gyfer y FHEQ. Gwnaethpwyd yr ymarfer gwirio diwethaf ym mis Mehefin 2019.

2.22 Cyhoeddwyd crynodebau o gasgliadau a goblygiadau'r prosesau gwirio hyn a'u hadroddiadau yn y dogfennau a ganlyn:

- 'Referencing the Regulated Qualifications Framework to the European Qualifications Framework' (Lloegr a Gogledd Iwerddon)
- 'Referencing the Scottish Credit & Qualifications Frameworks (SCQF) to the European Qualifications Framework (EQF)' (Yr Alban)
- Cyfeirio Rhwng Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (FfCChC) a'r Fframwaith Cymwysterau Ewropeaidd (FfCE) (Cymru).

### Y berthynas gyda fframweithiau cymwysterau cenedlaethol eraill yn y DU

2.23 Mae fframweithiau cymwysterau cenedlaethol eraill yn y DU (sydd hefyd yn ymwneud â hyfforddiant ac addysg alwedigaethol, yn ogystal ag addysg gyffredinol ac uwchradd) yn cynnwys y canlynol:

- y Fframwaith Cymwysterau Rheoleiddiedig (RQF), sy'n ymwneud ag addysg gyffredinol a chymwysterau galwedigaethol (yn Lloegr a Gogledd Iwerddon)
- mae Fframwaith Credydau a Chymwysterau'r Alban (SCQF), dan reolaeth Partneriaeth SCQF, yn fframwaith credydau a chymwysterau integredig trosfwaol yn yr Alban sy'n ymwneud â'r holl sectorau addysgol; mae'r FQHEIS yn rhan gyfansoddol o SCQF
- mae Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (FfCChC), dan reolaeth Llywodraeth Cymru, yn fframwaith-meta ar gyfer credydau a chymwysterau yng Nghymru sy'n ymwneud â phob math o hyfforddiant ac addysg ôl-14; mae'r FHEQ yn rhan gyfansoddol o FfCChC.

2.24 Yn Lloegr a Gogledd Iwerddon, mae'r FHEQ ar wahân i'r RQF, ond yng Nghymru a'r Alban, mae'r fframweithiau cymwysterau addysg uwch wedi eu hintegreiddio. Mae'r RQF a FfCChC yn darparu ar gyfer cymwysterau lefel uwch (ar lefelau 4 i 8) sy'n cymharu â'r lefelau cyfatebol yn y FHEQ. Mae cyfleoedd yn bodoli i symud ymlaen o'r cymwysterau ar un fframwaith i gymwysterau ar fframwaith arall. Er enghraifft, gallai Diplomâu Cenedlaethol Uwch sydd wedi eu rhestru ar y RQF ddarparu mynediad i ail neu drydedd flwyddyn rhai cyrsiau gradd baglor.

2.25 I ddangos y berthynas rhwng y gwahanol fframweithiau hyn a sut mae cymwysterau yn y gwahanol awdurdodaethau yn y DU a'i chymydog agos Iwerddon yn cymharu â'i gilydd, mae'r awdurdodau sy'n gyfrifol am y fframweithiau ymhob gwlad o'r DU ac yn Iwerddon wedi cynhyrchu canllaw am y fframweithiau cymwysterau cenedlaethol (a'r cymwysterau a gynigir) ymhob un o'r gwledydd: 'Qualifications Can Cross Boundaries - *A Guide to Comparing Qualifications in the UK and Ireland*' (yn y Saesneg yn unig). Cedwir y canllaw hwn gan QAA ar ran Grŵp Polisi a Fframweithiau Cymwysterau'r DU ac Iwerddon, ac mae'n galluogi i'r defnyddwyr gymharu cymwysterau a'u lefelau, yn hytrach na nodi cyfatebiaethau uniongyrchol.

### Y berthynas gyda chredydau

2.26 Mae SCQF a FfCChC yn fframweithiau credydau a chymwysterau integredig, ac mae hyn yn golygu eu bod yn pennu'r gofynion sylfaenol o ran y maint o gredyd a'r lefelau sydd eu hangen i ennill cymwysterau - mae'r RQF yn fframwaith cymwysterau yn unig. Fel y nodwyd ym mharagraff 2.23, mae'r FQHEIS yn rhan gyfansoddol o SCQF ac felly mae'n cyfeirio at ofynion credyd; mae'r trefniadau credyd yn y FQHEIS/SCQF yn berthnasol i bob corff dyfarnu graddau yn yr Alban. Mae pob corff dyfarnu graddau yng Nghymru wedi cytuno i ddefnyddio'r trefniadau credyd sydd wedi eu nodi yn FfCChC (y mae'r FHEQ yn rhan integrol ohono, gan ffurfio'r golofn cymwysterau addysg uwch).

2.27 Mae'r FHEQ yn fframwaith cymwysterau sydd wedi ei seilio ar y deilliannau astudio hynny a gynrychiolir gan deitlau'r prif gymwysterau. Nid fframwaith credydau a chymwysterau integredig ydyw, ac nid yw chwaith yn ddibynnol ar gredyd. Y rheswm am hyn yw nad yw pob corff dyfarnu graddau yn Lloegr yn defnyddio credydau. Nid yw rhai ohonynt yn defnyddio credydau o gwbl, ac mae rhai eraill yn defnyddio'r System Casglu a Throsglwyddo Credydau Ewropeaidd (ECTS) er mwyn cefnogi symudedd myfyrwyr o fewn Ewrop, ac maent yn dyfarnu pwyntiau ECTS yn hytrach na chredydau'r DU. Er hynny, mae credydau'n cael eu defnyddio'n eang gan y rhan fwyaf o'r cyrff dyfarnu graddau yn Lloegr a Gogledd Iwerddon wrth iddynt gynllunio a rheoli eu cyrsiau a addysgir ac mae hyn wedi bod yn wir ers blynyddoedd lawer. Yn 2021, cyhoeddwyd fersiwn ddiwygiedig gan QAA o'r Fframwaith Credydau Addysg Uwch i Loegr, ac mae modd i bob corff dyfarnu graddau yn Lloegr a Gogledd Iwerddon sy'n dyfarnu credyd gyfeirio at y fframwaith hwn oherwydd mae wedi ei lunio i fod yn gyflenwol i'r FHEQ.

2.28 Mae'r gwahanol fframweithiau credydau a ddefnyddir yn y DU yn gweithredu yn unol â'r un egwyddorion sylfaenol (er enghraifft, mae un credyd yn gyfwerth â 10 awr dybiannol o ddysgu). Felly, mae'r arweiniad yn y fframweithiau credydau hyn yn cefnogi dull cyson o ddyfarnu credyd ar draws y sector addysg uwch hefyd. Mae'r fframweithiau credydau ar gyfer Cymru, yr Alban a Lloegr/Gogledd Iwerddon yn rhoi arweiniad am y gofynion sylfaenol o ran faint o gredyd sydd ei angen i ennill y cymwysterau nodweddiadol ar bob lefel yn y fframwaith ar gyfer cymwysterau addysg uwch yn y DU sy'n berthnasol.

2.29 Mae Atodiad C y ddogfen hon yn nodi'r gofynion sylfaenol am faint o gredyd sydd wedi ei bennu yn y fframweithiau credydau sy'n berthnasol i bob un o awdurdodaethau'r DU. Yn Lloegr, mae'r Swyddfa Myfyrwyr wedi mabwysiadu fersiwn o'r tabl hwn fel cydran o'i safonau a gydnabyddir gan y sector. Mae SCQF a FfCChC yn cynnwys gwybodaeth fanwl am ofynion credyd i sefydliadau yng Nghymru a'r Alban. Gall darparwyr yn Lloegr weld rhagor o wybodaeth am y Fframwaith Credydau Addysg Uwch i Loegr yn y dogfennau 'Advice on Academic Credit Arrangements' a 'Making Use of Credit: A Companion to the Higher Education Credit Framework for England' (yn y Saesneg yn unig).

# 3 Y Fframweithiau a'u lefelau

## Y lefelau

3.1 Mae nifer o wahanol lefelau fframwaith yn fframweithiau'r DU ar gyfer cymwysterau addysg uwch. Mae'r rhain yn diffinio'r deilliannau dysgu sy'n mynd yn gynyddol heriol (a'r cymwysterau nodweddiadol) mewn trefn esgynnol.

3.2 Esbonnir pob lefel o'r fframweithiau gyda disgrifydd cymhwyster ar gyfer y cymhwyster nodweddiadol a ddyfernir gan gyrff dyfarnu graddau sydd ar y lefel honno (gwelwch baragraffau 2.7 ac adran 4). Mewn rhai achosion, mae cyrsiau sy'n arwain at gymwysterau addysg uwch, yn arbennig y rheiny a enillir dros nifer o flynyddoedd, yn cynnwys dysgu sy'n mynd yn gynyddol heriol ar draws mwy nag un lefel. Er enghraifft, mae graddau meistr integredig yn cynnwys dysgu ar draws lefelau 4 i 7 y FHEQ neu lefelau 7 i 11 y FQHEIS. Mae pob cymhwyster addysg uwch yn nodi deilliannau cwrs sy'n alinio â disgrifydd cymhwyster y lefel uchaf hwnnw. Mae amrywiaeth o gymwysterau ar bob lefel o fframweithiau'r DU. Mae lefelau'r fframweithiau'n darparu'r hyblygrwydd ar gyfer datblygiad cymwysterau newydd - er enghraifft, prentisiaethau gradd.

3.3 Mae nifer y lefelau yn y FHEQ yn wahanol i'r FQHEIS, am eu bod yn adlewyrchu'r athroniaethau, strwythurau ac agweddau tuag at addysg yn yr Alban sy'n wahanol i weddill y DU. Mae gwahaniaethau hefyd yn y mathau o gymwysterau a ddyfernir. Yn yr Alban, mae cyrsiau graddau baglor gydag anrhydedd yn para pedair blynedd fel arfer, sy'n cyd-fynd â strwythur yr addysg gynradd ac uwchradd yn yr Alban, ond maent yn para tair blynedd yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.

3.4 Mae pum lefel fframwaith yn y FHEQ - tair lefel israddedig a dwy lefel ôl-raddedig. Mae'r lefelau yn y FHEQ wedi eu rhifo o 4 i 8, ac mae'r rhain yn olynu lefelau 1 i 3 sy'n dod cyn addysg uwch yn y RQF a FfCChC. Mae chwe lefel fframwaith yn y FQHEIS - pedair lefel israddedig a dwy lefel ôl-raddedig. Am fod y FQHEIS yn rhan o SCQF, mae rhifau'r lefelau'n cychwyn ar 7, gan adlewyrchu'r nifer wahanol o lefelau yn yr addysg gyffredinol ac uwchradd yn yr Alban (er enghraifft, lefel y cymwysterau doethuriaeth yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yw 8, ond 12 yw eu lefel yn yr Alban).

3.5 Mae Tabl 1 yn dangos lefelau fframwaith y ddau fframwaith ar gyfer cymwysterau addysg uwch yn y DU, ac yn rhoi enghreifftiau o gymwysterau nodweddiadol ar bob lefel.

## Ynghylch Tabl 1

3.6 Mae'r tabl yma'n dangos y lefelau yn y FHEQ a'r FQHEIS yn ogystal â chylchoedd yr ECTS sydd wedi eu nodi yn y Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Ardal Addysg Uwch Ewrop (QF-EHEA). Mae'r tabl yn dangos cymwysterau nodweddiadol a lefelau a ddyfernir gan ddarparwyr addysg uwch. Ni all gynnwys pob math o ddyfarniad addysg uwch a'u teitlau, ac nid yw'n ceisio gwneud hynny. Mae'r awdurdod gan y cyrff dyfarnu graddau i benderfynu ar eu teitlau cymwysterau eu hunain, sydd wedi eu seilio fel arfer ar y trefnau enwi a nodir yn adrannau 6.8 i 6.21.

3.7 Mae rhai o'r celloedd yn y golofn QF-EHEA wedi eu tywyllu am nad yw'r cymwysterau hynny'n bodloni'r disgwyliadau ar gyfer cymwysterau'r cylch perthnasol. Yn yr un modd, mae'r chweched gell i lawr wedi ei thywyllu am nad yw diplomâu i raddedigion, tystysgrifau i raddedigion a'r Dystysgrif Addysg Broffesiynol i Raddedigion (TBAR) yn bodloni'r disgwyliadau ar gyfer cymwysterau ar ddiwedd y cylch cyntaf.

**Tabl 1: Esiamplau o gymwysterau addysg uwch nodweddiadol a ddyfernir ar wahanol lefelau'r *Fframweithiau ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch Cyrff Dyfarnu Graddau'r DU* a'u cylch cyfatebol yn y QF-EHEA**

Ar bob un o'r lefelau, mae'r amrywiol gymwysterau'n gofyn am wahanol feintiau o ddysgu, ac felly mae ystod y deilliannau dysgu a fwriedir yn wahanol ymhob un.

| Esiamplau o gymwysterau addysg uwch nodweddiadol a ddyferni gan gyrff dyfarnu graddau ar y gwahanol lefelau | FHEQ | FQHEIS | Cylch cyfatebol y QF-EHEA |
|---|---|---|---|
| | Lefel y FHEQ | Lefel y SCQF | |
| Graddau doethuriaeth<br>(e.e. PhD/DPhil, EdD, DBA, DClinPsy)[a] | 8 | 12 | Cymwysterau **(ar ddiwedd)** y trydydd cylch |
| Graddau meistr (e.e. MPhil, MLitt, MRes, MA, MSc) | | | Cymwysterau **(ar ddiwedd)** yr ail gylch |
| Graddau meistr integredig<br>(e.e. MEng, MChem, MPhys, MPharm)[b] | | | |
| Cymwysterau cynradd (neu raddau cyntaf) mewn meddygaeth, deintyddiaeth a milfeddygaeth (e.e. MB ChB, MB BS, BM BS[c]; BDS; BVSc, BVMS)[d] | 7 | 11 | |
| Diplomau ôl-raddedig | | | |
| Tystysgrif Addysg i Raddedigion (TAR)[e] /<br>Diploma Addysg i Raddedigion (PGDE)[f] | | | |
| Tystysgrifau ôl-raddedig | | | |
| Graddau baglor gydag anrhydedd (e.e. BA/BSc Anrh) | | 10 | Cymwysterau **(ar ddiwedd)** y cylch cyntaf |
| Graddau baglor[g] | | | |
| Tystysgrif Addysg Broffesiynol i Raddedigion (TBAR) yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon[e] | 6 | 9 | |
| Diplomâu i raddedigion | | | |
| Tystysgrifau i raddedigion[h] | | | |
| Graddau sylfaen (e.e. FdA, FdSc) | | — | Cymwysterau cylch byr **(o fewn y cylch cyntaf neu'n gysylltiedig ag o)** |
| Diplomâu Addysg Uwch (DipHE) | 5 | 8 | |
| Diplomâu Cenedlaethol Uwch (HND) a ddyfernir gan gyrff dyfarnu graddau yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon o dan drwydded Pearson[i] | | — | |
| Tystysgrifau Cenedlaethol Uwch (HNC) a ddyfernir gan gyrff dyfarnu graddau yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon o dan drwydded Pearson[i] | 4 | — | |
| Tystysgrifau Addysg Uwch (CertHE) | | 7 | |

**Nodiadau am Dabl 1**

a Mae cyrsiau gradd doethuriaeth broffesiynol yn cynnwys rhai elfennau a addysgir yn ychwanegol at y traethawd ymchwil. Mae'r arferion yn amrywio, ond fel arfer mae cyrsiau gradd doethuriaeth broffesiynol yn cynnwys astudiaeth ôl-raddedig sy'n gyfatebol ag o leiaf tair blwyddyn galendr o addysg amser llawn; yn rhan o hyn, mae astudiaeth ar lefel 7 y FHEQ neu lefel 11 SCQF y FQHEIS sy'n cynrychioli traean neu lai o'r cyfanswm.

b Fel arfer, mae cyrsiau gradd meistr integredig yn cynnwys astudiaeth sy'n gyfatebol ag o leiaf pedair blynedd academaidd o addysg amser llawn yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon; a phum mlynedd yn yr Alban. Yn rhan o'r pum mlynedd hyn, mae astudiaeth sy'n gyfatebol ag o leiaf blwyddyn academaidd o addysg amser llawn ar lefel 7 y FHEQ neu lefel 11 SCQF y FQHEIS (hynny yw, ar lefel y cymhwyster). Felly, mae astudiaethau ar lefel baglor wedi eu hintegreiddio yn yr astudiaethau lefel meistr, a chynllunnir y cyrsiau i gyfateb yn llawn â disgrifyddion y cymwysterau ar lefel 6 y FHEQ neu lefel 10 SCQF y FQHEIS ac ar lefel 7 y FHEQ neu lefel 11 SCQF y FQHEIS.

c Mae'r rhain i gyd yn dalfyriadau ar gyfer y graddau 'Baglor mewn Meddygaeth'/'Baglor mewn Llawfeddygaeth'.

d Fel arfer, mae cymwysterau cynradd mewn meddygaeth, deintyddiaeth a milfeddygaeth yn cynnwys astudiaeth sy'n gyfatebol ag o leiaf pedair blynedd academaidd o addysg amser llawn yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon; a phum mlynedd yn yr Alban. Yn rhan o'r pum mlynedd hyn, mae astudiaeth sy'n gyfatebol ag o leiaf blwyddyn academaidd o addysg amser llawn ar lefel 7 y FHEQ neu lefel 11 SCQF y FQHEIS (hynny yw, ar lefel y cymhwyster). Felly, mae astudiaethau ar lefel baglor wedi eu hintegreiddio yn yr astudiaethau lefel meistr, a chynllunnir y cyrsiau i gyfateb yn llawn â disgrifyddion y cymwysterau ar lefel 6 y FHEQ neu lefel 10 SCQF y FQHEIS ac ar lefel 7 y FHEQ neu lefel 11 SCQF y FQHEIS. Am resymau hanesyddol, mae'r cymwysterau hyn yn cadw'r teitl 'baglor' (gwelwch baragraff 4.17 (e))

e Cedwir y teitl 'Tystysgrif Addysg i Raddedigion (TAR)' ar gyfer y cymwysterau TAR hynny a osodir ar lefel 7 y FHEQ ac sy'n cyfateb â'r disgrifydd cymhwyster ar gyfer lefel 7. Defnyddir y teitl 'Tystysgrif Addysg Broffesiynol i Raddedigion (TBAR)' ar gyfer y cymwysterau TAR hynny a osodir ar lefel 6 y FHEQ ac sy'n cyfateb â'r disgrifydd cymhwyster sydd ar lefel 6 y FHEQ. Gallwch weld rhagor o wybodaeth yn y cyd-ddatganiad am deitl y cymhwyster TAR.

f Yn yr Alban, y cymhwyster nodweddiadol sy'n gyfatebol â'r Dystysgrif Addysg i Raddedigion fel arfer yw'r Diploma Addysg i Raddedigion.

g Mae gradd baglor heb anrhydedd yn cynnwys gradd gyffredin neu radd 'wedi pasio' sy'n cynnwys nifer llai o gredydau ac sydd felly'n cyfateb â'r disgrifydd cymhwyster yn rhannol ar lefel 6.

h Yn yr Alban, gallai tystysgrifau i raddedigion fod naill ai ar lefel 9 SCQF neu ar lefel 10 SCQF y FQHEIS.

i Yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, gallai Diplomâu a Thystysgrifau Cenedlaethol Uwch gael eu dyfarnu gan gyrff dyfarnu graddau o dan drwydded Pearson (sy'n caniatáu iddyn nhw gynllunio, darparu a dyfarnu cymwysterau Cenedlaethol Uwch eu hunain), neu gallent gael eu dyfarnu'n uniongyrchol gan Pearson. Dyfernir y rhan fwyaf o'r cymwysterau hyn gan Pearson. Dim ond y Diplomâu a Thystysgrifau Cenedlaethol Uwch hynny a ddyfernir gan gyrff dyfarnu graddau sy'n cael eu cynnwys yn y FHEQ (am fod y fframwaith hwn yn cynnwys cymwysterau a ddyfernir gan gyrff dyfarnu graddau). Nid yw Pearson yn gorff dyfarnu graddau, ond mae'n sefydliad dyfarnu a reoleiddir gan Ofqual. Mae'r Diplomâu a Thystysgrifau Cenedlaethol Uwch a ddyfernir yn uniongyrchol

gan Pearson yn gymwysterau rheoleiddiedig a osodir ar lefelau 5 neu 4 (yn y drefn honno) yn y RQF a FfCChC, ac maent yn atebol i safonau academaidd a rheoliadau Pearson, a gofynion y RQF a FfCChC. Yn yr Alban, dyfernir Diplomâu a Thystysgrifau Cenedlaethol Uwch gan Awdurdod Cymwysterau'r Alban (SQA) yn unig (nad yw'n gorff dyfarnu graddau) ac mae'r rhain ar lefelau 8 neu 7 SCQF, yn y drefn honno.

## 4 Y disgrifyddion cymhwyster

4.1 Mae disgrifyddion cymhwyster yn dangos deilliannau a phriodoleddau generig y prif fath o gymhwyster ar bob lefel fframwaith. Maent yn dangos yn glir beth yw'r gwahaniaethau rhwng y cymhwyster hwn a chymwysterau eraill, ar y lefel honno ac ar lefelau eraill. Maent yn generig eu natur am eu bod yn ymwneud â'r ystod lawn o feysydd astudio yn hytrach na phwnc penodol; mae Datganiadau Meincnodi Pwnc QAA yn ateb y diben hwn.

4.2 Mae dwy ran i ddisgrifyddion cymhwyster. Mae'r rhan gyntaf yn ddatganiad o ddeilliannau dysgu, yr asesir eu cyflawniad ac y dylai myfyriwr allu eu dangos i ennill y cymhwyster. Mae hwn yn nodi'r safon academaidd drothwy genedlaethol ar gyfer y cymhwyster. Mae'r rhan hon yn arbennig o berthnasol i gyrff dyfarnu graddau wrth iddynt gynllunio, cymeradwyo, asesu ac adolygu cyrsiau academaidd. Mae angen iddynt deimlo'n fodlon bod cyfleoedd dysgu a dulliau asesu pob cwrs yn rhoi cyfle i bob myfyriwr gyflawni deilliannau dysgu a fwriedir y cwrs, a dangos eu bod wedi eu cyflawni.

4.3 Mae ail ran y disgrifydd yn ddatganiad o'r galluoedd ehangach y byddai disgwyl i fyfyriwr nodweddiadol fod wedi eu datblygu, ac mae'n cefnogi trafodaethau gyda chyflogwyr a rhanddeiliaid eraill am y galluoedd hynny.

4.4 Ar y rhan fwyaf o'r lefelau, mae mwy nag un math o gymhwyster y gellir ei gyflawni (er enghraifft, diplomâu a thystysgrifau ôl-raddedig, yn ogystal â graddau meistr ar lefel 7 y FHEQ neu lefel 11 SCQF y FQHEIS). Ar bob un o'r lefelau, mae'r amrywiol fathau o gymwysterau'n gofyn am wahanol feintiau o ddysgu (er enghraifft, mae graddau meistr yn gofyn am fwy o ddysgu na thystysgrifau ôl-raddedig). O ganlyniad, mae ystod a natur y deilliannau dysgu a fwriedir yn amrywio rhwng cyrsiau. Felly, nid yw pob un o'r mathau o gymwysterau ar bob lefel yn bodloni pob un o ddisgwyliadau'r disgrifydd cymhwyster.

4.5 Os oes gan fath o gymhwyster heblaw'r prif gymhwyster faint llai o ddysgu, defnyddir y disgrifydd cymhwyster ar gyfer y radd fel pwynt cyfeirio, a disgwylir i'r cymhwyster is-radd gyfateb â'r disgrifydd yn rhannol. Mae'r wybodaeth islaw pob disgrifydd wedi ei liwio'n esbonio pa gymwysterau sy'n cyfateb yn llawn â'r disgrifydd, a lle defnyddir y disgrifydd cymhwyster fel pwynt cyfeirio ar gyfer cymwysterau eraill a osodir ar yr un lefel fframwaith.

4.6 Cynigir cyrsiau byr yn aml fel cyfleoedd datblygiad proffesiynol parhaus. Mae'r disgrifyddion cymhwyster yn bwyntiau cyfeirio sy'n helpu darparwyr i benderfynu pa lefel o fframwaith perthnasol y DU y dylid ei haseinio i unrhyw gymwysterau sy'n codi o'r cyrsiau hyn. Mae'r trefnau enwi a ddefnyddir ar gyfer cyrsiau wedi eu nodi ym mharagraffau 6.13 i 6.19.

4.7 Mae QAA yn cadw golwg ar yr angen am unrhyw disgrifyddion cymhwyster ychwanegol, neu addasiad iddynt, yng nghyd-destun datblygiad pwyntiau cyfeirio eraill, megis Datganiadau Meincnodi Pwnc a Datganiadau o Nodweddion (gwelwch baragraffau 5.2 i 5.4) neu ddatblygiadau yn Ewrop - er enghraifft, o ganlyniad i Broses Bologna - neu'r ddogfen 'Reference Framework of Competences for Democratic Culture' a gyhoeddwyd gan Gyngor Ewrop yn 2018.

4.8 Am fod dau fframwaith, gall y disgrifyddion a ganlyn fod yn gymwys i naill ai'r FHEQ, y FQHEIS, neu'r ddau. Mae'r disgrifyddion cymhwyster sy'n ymwneud â'r FHEQ wedi eu lliwio'n **wyrdd**, ac mae'r rheiny sy'n ymwneud â'r FQHEIS wedi eu lliwio'n **las**. Mae'r disgrifyddion cymhwyster hynny sydd wedi eu lliwio'n **borffor** yn gyffredin i'r FHEQ a'r FQHEIS. Felly, mae:

- dau ddisgrifydd ar wahân ar gyfer CertHE (un ar gyfer y FHEQ a'r llall ar gyfer y FQHEIS)
- disgrifydd cymhwyster ar gyfer y radd sylfaen yn y FHEQ a disgrifydd cymhwyster ar gyfer y radd DipHE yn y FQHEIS
- disgrifydd cymhwyster ar gyfer y radd baglor (heb anrhydedd) yn yr Alban

- dau ddisgrifydd ar wahân ar gyfer graddau baglor gydag anrhydedd (un ar gyfer y FHEQ a'r llall ar gyfer y FQHEIS)
- un disgrifydd cymhwyster ar gyfer graddau baglor (lefel 7 y FHEQ neu lefel 11 SCQF y FQHEIS), ac
- un disgrifydd ar gyfer graddau meistr (lefel 8 y FHEQ neu lefel 12 SCQF y FQHEIS).

4.9 Hefyd, dylai darparwyr yn Lloegr gyfeirio at safonau'r Swyddfa Myfyrwyr a gydnabyddir gan y sector sy'n alinio â chynnwys y disgrifyddion sydd wedi eu nodi yma.

### 4.10 Disgrifydd cymhwyster addysg uwch sydd ar lefel 4 y FHEQ

**Tystysgrif Addysg Uwch**

Mae'r disgrifydd sydd wedi ei nodi ar gyfer y lefel hon yn berthnasol i bob tystysgrif addysg uwch, a ddylai gyfateb â'r disgrifydd yn llawn. Dylid defnyddio'r disgrifydd cymhwyster hwn hefyd fel pwynt cyfeirio ar gyfer cymwysterau eraill sy'n cyfateb â lefel 4 y FHEQ.

**Dyfernir Tystysgrifau Addysg Uwch i fyfyrwyr sydd wedi dangos:**

- gwybodaeth o'r cysyniadau a'r egwyddorion sylfaenol sy'n gysylltiedig â'u maes/meysydd astudio, a'r gallu i'w gwerthuso a'u dehongli yng nghyd-destun y maes astudio hwnnw
- y gallu i gyflwyno, gwerthuso a dehongli data meintiol ac ansoddol, er mwyn datblygu ymresymiadau a dod i gasgliadau cadarn yn unol â'r damcaniaethau a'r cysyniadau sylfaenol yn eu maes/meysydd astudio.

**Fel arfer, bydd dalwyr y cymhwyster yn gallu:**

- gwerthuso pa mor briodol yw gwahanol ddulliau o ddatrys problemau sy'n berthnasol i'w maes/meysydd astudio a/neu waith
- cyfleu canlyniadau eu hastudiaeth/gwaith mewn ffordd gywir a dibynadwy, gan ddefnyddio dadleuon strwythuredig a threfnus
- gwneud hyfforddiant pellach a datblygu sgiliau newydd o fewn amgylchedd strwythuredig a threfnus.

**A bydd dalwyr y cymhwyster:**

- yn meddu ar y nodweddion a'r sgiliau trosglwyddadwy sy'n ofynnol ar gyfer swyddi lle bydd gofyn iddyn nhw gymryd rhywfaint o gyfrifoldeb personol.

a) Bydd dalwyr Tystysgrif Addysg Uwch yn meddu ar wybodaeth dda o'r cysyniadau sylfaenol yn y pwnc, a byddant wedi dysgu sut i ddefnyddio gwahanol ddulliau o ddatrys problemau. Byddant yn gallu cyfathrebu mewn ffordd gywir ac yn meddu ar y nodweddion sy'n ofynnol ar gyfer swyddi lle bydd gofyn iddyn nhw gymryd rhywfaint o gyfrifoldeb personol. Gallai'r Dystysgrif Addysg Uwch fod yn gam cyntaf i ennill cymwysterau lefel uwch.

### 4.11 Disgrifydd cymhwyster addysg uwch sydd ar lefel 7 SCQF y FQHEIS

**Tystysgrif Addysg Uwch**

Cynigir y Dystysgrif Addysg Uwch (CertHE) gan nifer o sefydliadau addysg uwch yn yr Alban, a hynny fel arfer fel dyfarniad wrth adael cwrs ar ôl cyfnod sy'n gyfatebol â blwyddyn o astudio llawn amser.

Dyfernir rhai graddau CertHE am gyflawni'r deilliannau dysgu dros ystod eang o bynciau, tra bo eraill yn canolbwyntio ar un pwnc yn unig, gyda ffocws galwedigaethol cryf mewn rhai achosion. Bydd cofnod diffiniol y cwrs perthnasol yn nodi ei union ddeilliannau dysgu a ffocws.

**Dyfernir Tystysgrifau Addysg Uwch i fyfyrwyr sydd wedi dangos:**

- gwybodaeth gyffredinol o gwmpas a phrif feysydd y pwnc/pynciau academaidd a'u cysylltiadau â phynciau cysylltiedig, a gwybodaeth ehangach o rai o'r meysydd allweddol
- dealltwriaeth o'r prif ddamcaniaethau, egwyddorion a chysyniadau
- cynefindra â rhai o'r deunyddiau, y technegau a'r arferion sy'n arferol yn y pwnc
- sgiliau mewn casglu, dadansoddi sylfaenol, a chyflwyno gwybodaeth, syniadau, cysyniadau a data meintiol ac ansoddol sy'n arferol yn y pwnc, o fewn cyd-destun sydd wedi ei ddiffinio'n glir; bydd hyn yn cynnwys defnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) fel y bo'n briodol i'r pwnc.

**Fel arfer, bydd dalwyr y Dystysgrif Addysg Uwch yn gallu:**

- defnyddio eu gwybodaeth o'r pwnc a'i dechnegau'n rheolaidd i werthuso a llunio amrywiaeth o ddadleuon ac atebion i broblemau a materion arferol
- cyfleu canlyniadau eu hastudiaeth a'u gwaith arall mewn ffordd gywir a dibynadwy, gan ddefnyddio dadleuon strwythuredig a threfnus
- gwneud dysgu pellach o fewn amgylchedd strwythuredig a threfnus
- defnyddio eu sgiliau pwnc-benodol a'u sgiliau trosglwyddadwy mewn cyd-destunau lle mae gan unigolion rywfaint o gyfrifoldeb personol cyfyngedig, ond lle mae'r meini prawf ar gyfer penderfyniadau a chwmpas y dasg wedi eu diffinio'n dda.

### 4.12 Disgrifydd cymhwyster addysg uwch sydd ar lefel 5 y FHEQ

**Gradd sylfaen**

Mae'r disgrifydd sydd wedi ei nodi ar gyfer y lefel hon yn y FHEQ yn berthnasol i bob gradd sylfaen, a ddylai gyfateb â'r disgrifydd yn llawn. Dylid defnyddio'r disgrifydd cymhwyster hwn hefyd fel pwynt cyfeirio ar gyfer cymwysterau eraill a osodir ar lefel 5 y FHEQ, megis Diplomâu Addysg Uwch a Diplomâu Cenedlaethol Uwch.

**Dyfernir graddau sylfaen i fyfyrwyr sydd wedi dangos:**

- gwybodaeth a dealltwriaeth feirniadol o'r egwyddorion sylfaenol sefydledig yn eu maes/ meysydd astudio, ac o'r ffordd y mae'r egwyddorion hynny wedi datblygu
- y gallu i gymhwyso cysyniadau ac egwyddorion sylfaenol y tu allan i'r cyd-destun lle cawsent eu hastudio'n gyntaf, yn cynnwys, lle bo'n briodol, gymhwyso'r egwyddorion hynny yng nghyd-destun gwaith cyflogedig
- gwybodaeth o'r prif ddulliau ymholi yn y pwnc/pynciau sy'n berthnasol i'r dyfarniad penodol a enwir, a'r gallu i werthuso'n feirniadol pa mor briodol yw gwahanol ddulliau o ddatrys problemau yn y maes astudio
- dealltwriaeth o gyfyngiadau eu gwybodaeth, a sut mae hyn yn dylanwadu ar y gwaith o ddadansoddi a dehongli'r wybodaeth hon.

**Fel arfer, bydd dalwyr y cymhwyster yn gallu:**

- defnyddio amrywiaeth o dechnegau sefydledig i gychwyn a gwneud y gwaith o ddadansoddi gwybodaeth yn feirniadol, ac i gynnig atebion i broblemau o ganlyniad i'r dadansoddiad hwn
- cyfleu gwybodaeth, dadleuon a dadansoddiad yn effeithiol i arbenigwyr ac i gynulleidfa fwy cyffredinol mewn amrywiaeth o ffyrdd, a defnyddio technegau allweddol y maes astudio'n effeithiol
- gwneud hyfforddiant pellach, datblygu sgiliau sydd ganddynt yn barod a chaffael cymwyseddau newydd a fydd yn eu galluogi i gymryd cyfrifoldeb sylweddol mewn sefydliadau.

**A bydd dalwyr y cymhwyster:**

- yn meddu ar y nodweddion a'r sgiliau trosglwyddadwy sy'n ofynnol ar gyfer swyddi lle bydd gofyn iddyn nhw gymryd cyfrifoldeb personol a gwneud penderfyniadau.

a) Mae'r radd sylfaen yn esiampl o gymhwyster sy'n bodloni disgwyliadau'r disgrifydd cymhwyster yn llawn (gwelwch y Datganiad o Nodweddion ar gyfer Graddau Sylfaen, sydd ar gael yn y Saesneg yn unig ar hyn o bryd).

b) Bydd dalwyr y cymwysterau sydd ar y lefel hon wedi datblygu dealltwriaeth gadarn o'r egwyddorion yn eu maes astudio, a byddent wedi dysgu cymhwyso'r egwyddorion hynny'n ehangach. Trwy wneud hynny, byddent wedi dysgu sut i werthuso pa mor briodol yw gwahanol ddulliau o ddatrys problemau. Mae'n bosibl bod gogwydd galwedigaethol i'w hastudiaethau - er enghraifft, Diplomâu Cenedlaethol Uwch - gan eu galluogi i berfformio'n effeithiol yn eu dewis faes. Bydd dalwyr y cymwysterau sydd ar y lefel hon yn meddu ar y nodweddion sy'n ofynnol ar gyfer swyddi lle bydd gofyn iddyn nhw gymryd cyfrifoldeb personol a gwneud penderfyniadau.

### 4.13 Disgrifydd cymhwyster addysg uwch sydd ar lefel 8 SCQF y FQHEIS

**Diploma Addysg Uwch**

Fel arfer, cynigir y Diploma Addysg Uwch (DipHE) yn yr Alban ar ôl cwblhau astudiaeth sy'n gyfatebol â'r ddwy flynedd gyntaf o addysg uwch amser llawn.

Dyfernir rhai graddau DipHE am gyflawni'r deilliannau dysgu dros ystod eang o bynciau, tra bo eraill yn canolbwyntio ar un pwnc yn unig, gyda ffocws galwedigaethol cryf mewn rhai achosion. Bydd cofnod diffiniol y cwrs perthnasol yn nodi ei union ddeilliannau dysgu a ffocws.

**Dyfernir Diplomâu Addysg Uwch i fyfyrwyr sydd wedi dangos:**

- gwybodaeth a dealltwriaeth o gwmpas a phrif feysydd y pwnc/pynciau academaidd a'i berthynas â phynciau cysylltiedig; gwybodaeth fanwl o rai o'r meysydd allweddol, a allai gynnwys rhywfaint o wybodaeth o faterion cyfredol mewn meysydd arbenigol cyfyngedig
- cynefindra ag amrediad o'r damcaniaethau, yr egwyddorion a'r cysyniadau hanfodol, a dealltwriaeth ohonynt, ac ymwybyddiaeth o faterion mawr sy'n flaenllaw yn y pwnc/pynciau
- cynefindra â'r deunyddiau, y technegau a'r arferion sy'n hanfodol/arferol yn y pwnc/pynciau, a'r gallu i'w defnyddio'n effeithiol
- sgiliau mewn casglu, dadansoddi beirniadol a chyflwyno gwybodaeth, syniadau, cysyniadau a/neu ddata meintiol ac ansoddol sy'n greiddiol i'r pwnc/pynciau; bydd hyn yn cynnwys defnyddio TGCh, fel y bo'n briodol i'r pwnc/pynciau.

**Fel arfer, bydd dalwyr y cymhwyster yn gallu:**

- defnyddio eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u sgiliau i werthuso'n feirniadol a llunio dadleuon sydd wedi eu seilio ar dystiolaeth, a chanfod atebion i broblemau nad ydynt allan o'r cyffredin sydd wedi eu diffinio'n glir
- cyfleu canlyniadau eu hastudiaeth a'u gwaith arall mewn ffordd gywir a dibynadwy, gan ddefnyddio ystod o dechnegau arbenigol
- canfod ac ateb eu prif anghenion dysgu eu hunain mewn cyd-destunau diffiniedig a gwneud dysgu pellach dan arweiniad mewn meysydd newydd
- defnyddio eu sgiliau pwnc-benodol a'u sgiliau trosglwyddadwy mewn cyd-destunau lle mae cwmpas y dasg a'r meini prawf penderfynu wedi eu diffinio'n dda ar y cyfan, ond lle mae gofyn iddyn nhw gymryd cyfrifoldeb personol a dangos blaengaredd i ryw raddau.

### 4.14 Disgrifydd cymhwyster addysg uwch sydd ar lefel 9 SCQF y FQHEIS

**Gradd baglor (heb anrhydedd) yn yr Alban**

Fel arfer, enillir y radd baglor (heb anrhydedd) yn yr Alban ar ôl cwblhau astudiaeth sy'n gyfatebol â thair blynedd o addysg uwch amser llawn. Yn dibynnu ar y maes/meysydd astudio neu broffesiynol, dyfernir y radd fel arfer naill ai dan y teitl 'Baglor yn y Gwyddorau' BSc, neu 'Baglor yn y Celfyddydau' BA. Er y bydd pob gradd yn dangos cydbwysedd rhwng ehangder a dyfnder, bydd rhai cyrsiau gradd yn canolbwyntio'n drwm ar un pwnc yn unig, tra bydd eraill yn datblygu deilliannau ehangach. Bydd cofnod diffiniol y cwrs yn nodi nodweddion arbennig pob gradd. Cydnabyddir nifer o'r graddau sydd â ffocws galwedigaethol penodol gan y corff proffesiynol neu statudol perthnasol. Mewn nifer fechan o brifysgolion, mewn rhai cyfadrannau, rhoddir y teitl 'MA' i'r cymhwyster hwn (gwelwch baragraff 4.17 (f)). Mae'r radd baglor (heb anrhydedd) yn yr Alban yn un o'r gofynion mynediad cydnabyddedig i nifer o broffesiynau ledled y DU.

**Dyfernir graddau baglor i fyfyrwyr sydd wedi dangos:**

- gwybodaeth eang a chymharol o gwmpas cyffredinol y pwnc, ei wahanol feysydd a'r defnydd a wneir ohono, a'i berthynas â phynciau cysylltiedig; gwybodaeth fanwl o bwnc diffiniedig, neu wybodaeth fwy cyfyngedig o faes arbenigol wedi ei chydbwyso gan ystod ehangach o astudio; ymhob achos, bydd yr astudio arbenigol yn cymryd datblygiadau cyfredol yn y pwnc i ystyriaeth
- dealltwriaeth feirniadol o'r damcaniaethau, yr egwyddorion a'r cysyniadau sy'n hanfodol yn y pwnc/pynciau, ac o'r ffyrdd o'u datblygu nhw drwy ddefnyddio'r prif ddulliau ymholi yn y pwnc; ymwybyddiaeth o natur dros dro unrhyw wybodaeth
- cynefindra â'r deunyddiau, yr arferion a'r sgiliau arferol, a'r gallu i'w defnyddio'n gymwys, yn cynnwys rhai sy'n fwy arbenigol, datblygedig a chymhleth
- sgiliau datblygedig mewn casglu, gwerthuso, dadansoddi a chyflwyno gwybodaeth, syniadau, cysyniadau a data meintiol ac/neu ansoddol, gan fanteisio ar amrywiaeth eang o ffynonellau cyfoes; bydd hyn yn cynnwys defnyddio TGCh, fel y bo'n briodol i'r pwnc/pynciau.

**Fel arfer, bydd dalwyr y cymhwyster yn gallu:**

- defnyddio eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u sgiliau wrth ganfod a dadansoddi problemau a materion ac wrth lunio, gwerthuso a defnyddio atebion a dadleuon sydd wedi eu seilio ar dystiolaeth
- cyfleu canlyniadau eu hastudiaethau a'u gwaith arall mewn ffordd gywir a dibynadwy mewn amrywiaeth o wahanol gyd-destunau, gan ddefnyddio'r prif gysyniadau, lluniadau a thechnegau arbenigol yn y pwnc/pynciau
- canfod ac ateb eu hanghenion dysgu eu hunain, yn cynnwys gallu manteisio ar amrywiaeth o waith ymchwil a datblygu cyfredol a deunyddiau proffesiynol cyfredol
- defnyddio eu sgiliau pwnc-benodol a'u sgiliau trosglwyddadwy mewn cyd-destunau lle mae cwmpas y dasg a'r meini prawf penderfynu wedi eu diffinio'n dda o bosib, ond lle mae gofyn iddyn nhw gymryd cyfrifoldeb personol, dangos blaengaredd a gwneud penderfyniadau hefyd.

### 4.15 Disgrifydd cymhwyster addysg uwch sydd ar lefel 6 y FHEQ

**Gradd baglor gydag anrhydedd**

Mae'r disgrifydd sydd wedi ei nodi ar gyfer y lefel hon yn y FHEQ yn berthnasol i bob gradd baglor gydag anrhydedd, a ddylai gyfateb â'r disgrifydd yn llawn. Dylid defnyddio'r disgrifydd cymhwyster hwn hefyd fel pwynt cyfeirio ar gyfer cymwysterau eraill ar lefel 6 y FHEQ, yn cynnwys graddau baglor a diplomâu i raddedigion.

**Dyfernir graddau baglor gydag anrhydedd i fyfyrwyr sydd wedi dangos:**

- dealltwriaeth systematig o agweddau allweddol o'u maes astudio, gan gynnwys caffael gwybodaeth drefnus a manwl, y mae o leiaf rhywfaint ohoni'n ymwneud ag agweddau diffiniedig o'r datblygiadau diweddaraf un yn y maes astudio
- y gallu i wneud defnydd cywir o dechnegau dadansoddi ac ymholi sydd wedi eu sefydlu'n dda mewn maes astudio
- dealltwriaeth o gysyniadau sy'n galluogi i'r myfyriwr:
    - lunio ac ymgynnal dadleuon, a/neu ddatrys problemau, gan ddefnyddio syniadau a thechnegau, y mae rhywfaint ohonynt yn flaenllaw yn y maes astudio
    - ddisgrifio, a rhoi sylwadau am, agweddau penodol o waith ymchwil cyfredol, neu arferion addysgol uwch cyfatebol, yn y maes astudio
- ystyriaeth o ansicrwydd, amwysedd a ffiniau gwybodaeth
- y gallu i reoli eu dysgu eu hunain a defnyddio adolygiadau ysgolheigaidd a ffynonellau cynradd (er enghraifft, erthyglau ymchwil a adolygwyd gan gymheiriaid a/neu ddeunyddiau gwreiddiol fel y bo'n briodol i'r maes astudio).

**Fel arfer, bydd dalwyr y cymhwyster yn gallu:**

- defnyddio'r dulliau a'r technegau y maen nhw wedi eu dysgu i adolygu, atgyfnerthu, ymestyn a chymhwyso eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth, ac i gychwyn a gwneud prosiectau
- gwerthuso dadleuon, tybiaethau, cysyniadau haniaethol a data'n feirniadol (a allai fod yn anghyflawn), i ddod i gasgliadau, ac i lunio cwestiynau perthnasol er mwyn canfod ateb neu nifer o atebion i broblem
- cyfleu gwybodaeth, syniadau, problemau ac atebion i arbenigwyr ac i gynulleidfa fwy cyffredinol.

**A bydd dalwyr y cymhwyster:**

- yn meddu ar y nodweddion a'r sgiliau trosglwyddadwy sy'n ofynnol ar gyfer swyddi lle bydd gofyn iddyn nhw:
- ddangos blaengaredd a chymryd cyfrifoldeb personol
- wneud penderfyniadau mewn cyd-destunau cymhleth na ellir eu rhagweld
- feddu ar y gallu i ddysgu sydd ei angen i wneud hyfforddiant pellach priodol o natur broffesiynol neu gyfatebol.

a) Bydd dalwyr gradd baglor gydag anrhydedd wedi datblygu dealltwriaeth o gorff eang o wybodaeth, y mae rhywfaint ohoni ar ffiniau cyfredol eu maes academaidd. Trwy gyfrwng hynny, byddent wedi datblygu technegau dadansoddi a sgiliau datrys problemau y gellir eu defnyddio mewn mathau niferus o swyddi. Bydd daliwr cymhwyster o'r fath yn gallu gwerthuso tystiolaeth, dadleuon a thybiaethau i'w alluogi i ddod i gasgliadau cadarn a'u cyfleu'n effeithiol.

b) Dylai dalwyr gradd baglor gydag anrhydedd feddu ar y nodweddion sy'n ofynnol ar gyfer swyddi lle bydd gofyn iddyn nhw gymryd cyfrifoldeb personol a gwneud penderfyniadau o dan amgylchiadau cymhleth na ellir eu rhagweld.

c) Y grŵp mwyaf o gymwysterau addysg uwch yw graddau baglor gydag anrhydedd. Fel arfer, byddai disgwyl i ddeilliannau dysgu'r cyrsiau hyn gael eu cyflawni ar sail astudio sy'n gyfatebol â thair neu bedair blynedd academaidd o addysg amser llawn ac arwain at gymwysterau sydd â theitlau megis 'Baglor yn y Celfyddydau' BA (Anrh) neu 'Baglor yn y Gwyddorau' BSc (Anrh). Yn ychwanegol at raddau baglor ar y lefel hon, mae cyrsiau byr a chyrsiau 'trawsnewid' proffesiynol, wedi eu seilio i raddau mawr ar ddeunyddiau israddedig, a gymerir fel arfer gan y rheiny sydd wedi graddio yn barod mewn maes astudio arall, sy'n arwain, er enghraifft, at dystysgrifau i raddedigion neu ddiplomâu i raddedigion.

### 4.16 Disgrifydd cymhwyster addysg uwch sydd ar lefel 10 SCQF y FQHEIS

**Gradd baglor gydag anrhydedd yn yr Alban**

Fel arfer, cynigir y radd baglor gydag anrhydedd yn yr Alban ar ôl cwblhau astudiaeth sy'n gyfatebol â phedair blynedd o addysg uwch amser llawn. Yn bennaf, dyfernir naill ai'r teitl 'Baglor yn y Gwyddorau' BSc (Anrh) neu 'Baglor yn y Celfyddydau' BA (Anrh). Bydd pob gradd anrhydedd yn dangos cydbwysedd rhwng ehangder a dyfnder, fel y nodir yn glir yng nghofnod diffiniol pob cwrs unigol. Bydd gan nifer o raddau anrhydedd ffocws galwedigaethol penodol, ac mewn rhai achosion bydd ganddynt gydnabyddiaeth gan y corff proffesiynol neu statudol perthnasol. Mewn nifer fechan o brifysgolion, mewn rhai cyfadrannau, rhoddir y teitl 'MA (Anrh)' i'r cymhwyster hwn (gwelwch baragraff 4.17 (f)). Cydnabyddir y radd gydag anrhydedd fel y gofyniad mynediad 'arferol' i gyrsiau astudio ôl-raddedig.

**Dyfernir graddau anrhydedd i fyfyrwyr sydd wedi dangos:**

- gwybodaeth a dealltwriaeth systematig, eang a chymharol o'r pwnc/pynciau fel corff cyfan, a'u cysylltiadau â phwnc/pynciau cysylltiedig; gwybodaeth fanwl o nifer o ddatblygiadau ac arferion arbenigol, y mae rhywfaint ohonynt yn ymwneud â'r diweddaraf un yn y pwnc
- dealltwriaeth feirniadol o'r damcaniaethau, yr egwyddorion a'r cysyniadau sefydledig, ac o nifer o faterion uwch a rhai sy'n dod i'r amlwg ar ffiniau gwybodaeth y pwnc/pynciau
- dealltwriaeth feirniadol o ansicrwydd a ffiniau gwybodaeth, ac o'r ffordd y mae gwybodaeth yn cael ei datblygu, a'r gallu i ddefnyddio technegau dadansoddi ac ymholi sefydledig y pwnc
- cynefindra â deunyddiau, technegau a sgiliau hanfodol a mwy datblygedig, a gwybodaeth gynhwysfawr ohonynt, y mae rhywfaint ohonynt yn flaenllaw yn y pwnc
- sgiliau mewn canfod anghenion o ran gwybodaeth, ac mewn casglu, dadansoddi a dehongli syniadau, cysyniadau, data meintiol ac ansoddol, a gwybodaeth, mewn ffordd systematig, o amrywiaeth o ffynonellau wedi'u gwerthuso, yn cynnwys gwaith ymchwil cyfredol, deunyddiau darllen addysgol a/neu broffesiynol.

**Fel arfer, bydd dalwyr y radd baglor gydag anrhydedd yn gallu:**

- defnyddio eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u sgiliau i asesu amrywiaeth eang o gysyniadau, syniadau a data (a allai fod yn anghyflawn) yn feirniadol mewn ffordd systematig, ac i ganfod a dadansoddi problemau a materion cymhleth; gan ddangos rhywfaint o wreiddioldeb a chreadigedd wrth lunio, gwerthuso a chymhwyso atebion a dadleuon sydd wedi eu seilio ar dystiolaeth
- cyfleu canlyniadau eu hastudiaeth a'u gwaith arall mewn ffordd gywir a dibynadwy gan ddefnyddio'r ystod lawn o'r prif gysyniadau a lluniadau yn y pwnc/pynciau
- canfod ac ateb eu hanghenion dysgu eu hunain mewn ffordd systematig, mewn meysydd cyfredol a newydd, gan ddefnyddio deunyddiau ymchwil a datblygu a deunyddiau proffesiynol, fel y bo'n briodol, gan gynnwys y deunyddiau hynny sy'n ymwneud â'r datblygiadau diweddaraf un
- defnyddio eu sgiliau pwnc-benodol a'u sgiliau trosglwyddadwy mewn cyd-destunau proffesiynol neu gyfatebol lle mae gofyn iddyn nhw:
    - gymryd cyfrifoldeb personol a dangos blaengaredd
    - wneud penderfyniadau mewn cyd-destunau cymhleth na ellir eu rhagweld
    - feddu ar y gallu i wneud datblygiadau pellach o natur broffesiynol neu gyfatebol.

**4.17 Disgrifydd cymhwyster addysg uwch sydd ar lefel 7 y FHEQ neu lefel 11 SCQF y FQHEIS**

**Gradd meistr**

Mae'r disgrifydd sydd wedi ei nodi ar gyfer y lefel hon yn y Fframweithiau'n berthnasol i bob gradd meistr, a ddylai gyfateb â'r disgrifydd yn llawn. Dylid defnyddio'r disgrifydd cymhwyster hwn hefyd fel pwynt cyfeirio ar gyfer cymwysterau eraill sydd ar lefel 7 y FHEQ neu lefel 11 SCQF y FQHEIS, yn cynnwys tystysgrifau ôl-raddedig a diplomâu ôl-raddedig.

**Dyfernir graddau meistr i fyfyrwyr sydd wedi dangos:**

- dealltwriaeth systematig o wybodaeth, ac ymwybyddiaeth feirniadol o broblemau cyfredol a/neu ddarganfyddiadau newydd, y mae llawer ohonynt yn ymwneud â'r datblygiadau diweddaraf un yn eu maes academaidd, eu maes astudio neu eu maes o arfer proffesiynol
- dealltwriaeth gynhwysfawr o dechnegau y gellir eu cymhwyso i'w gwaith ymchwil neu eu harferion addysgol uwch eu hunain
- gwreiddioldeb wrth gymhwyso gwybodaeth, yn ogystal â dealltwriaeth ymarferol o sut i ddefnyddio technegau ymchwil ac ymholi sefydledig i greu a dehongli gwybodaeth yn y maes astudio
- dealltwriaeth o gysyniadau sy'n galluogi i'r myfyriwr:
  - werthuso gwaith ymchwil cyfredol ac arferion addysgol uwch yn feirniadol yn y maes astudio
  - werthuso methodolegau a datblygu beirniadaeth amdanynt, a chynnig rhagdybiaethau newydd lle bo'n briodol.

**Fel arfer, bydd dalwyr y cymhwyster yn gallu:**

- ymdrin â materion cymhleth mewn ffordd systematig a chreadigol, dod i gasgliadau cadarn heb ddata cyflawn, a chyfleu eu casgliadau'n glir i arbenigwyr ac i gynulleidfa fwy cyffredinol
- dangos y gallu i hunan-gyfarwyddo a meddwl mewn ffordd wreiddiol wrth fynd i'r afael â phroblemau a'u datrys, a gweithredu mewn ffordd ymreolaethol wrth gynllunio a gweithredu tasgau ar lefel broffesiynol neu lefel gyfatebol
- parhau i wella eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth, a datblygu sgiliau newydd i safon uchel.

**A bydd dalwyr y cymhwyster:**

- yn meddu ar y nodweddion a'r sgiliau trosglwyddadwy sy'n ofynnol ar gyfer swyddi lle bydd gofyn iddyn nhw:
  - ddangos blaengaredd a chymryd cyfrifoldeb personol
  - wneud penderfyniadau mewn sefyllfaoedd cymhleth na ellir eu rhagweld
  - feddu ar y gallu i ddysgu'n annibynnol sydd ei angen i wneud datblygiad proffesiynol parhaus.

a) Mae llawer o'r astudio a wneir i ennill gradd meistr yn ymwneud â'r wybodaeth ddiweddaraf un yn y maes academaidd neu broffesiynol. Mae'r myfyrwyr llwyddiannus yn dangos gwreiddioldeb wrth gymhwyso gwybodaeth, ac maent yn deall sut mae ffiniau gwybodaeth

yn cael eu hymestyn drwy wneud gwaith ymchwil. Maent yn gallu ymdrin â materion cymhleth mewn ffordd systematig a chreadigol, ac maent yn dangos gwreiddioldeb wrth fynd i'r afael â phroblemau a'u datrys. Maent yn meddu ar y nodweddion sy'n ofynnol ar gyfer swyddi lle bydd gofyn iddyn nhw ddod i gasgliadau cadarn, cymryd cyfrifoldeb personol a dangos blaengaredd mewn sefyllfaoedd cymhleth na ellir eu rhagweld, mewn amgylcheddau proffesiynol.

b) Dyfernir graddau meistr ar ôl cwblhau cyrsiau a addysgir, cyrsiau ymchwil neu gymysgedd o'r ddau fath. Gallai cyrsiau hirach sy'n seiliedig ar waith ymchwil arwain at y radd 'MPhil'. Cyflawnir deilliannau dysgu'r rhan fwyaf o gyrsiau gradd meistr ar sail astudiaeth sy'n gyfatebol ag o leiaf blwyddyn galendr o addysg amser llawn a chânt eu cymryd gan raddedigion sydd â gradd baglor gydag anrhydedd (neu gyflawniad cyfatebol).

c) Yn aml iawn, mae graddau meistr yn cael eu gwahaniaethu oddi wrth gymwysterau eraill a osodir ar y lefel fframwaith hon (er enghraifft, cyrsiau uwch byr, sydd yn aml yn rhannau o gyrsiau datblygiad proffesiynol parhaus ac yn arwain at dystysgrifau ôl-raddedig a/neu ddiplomâu ôl-raddedig) am fod eu hastudiaeth yn fwy dwys, cymhleth a manwl.
O'u cymharu â thystysgrifau ôl-raddedig a diplomâu ôl-raddedig, mae cyrsiau gradd meistr fel arfer yn cynnwys cynnydd deallusol sydd wedi ei gynllunio a fydd yn aml yn cynnwys gwaith ymchwil/synoptig neu weithgareddau ysgolheigaidd.

d) Mae nifer o gyrsiau gradd meistr - er enghraifft, mewn gwyddoniaeth, peirianneg a mathemateg - yn cynnwys cwrs astudio integredig sy'n ymestyn dros nifer o lefelau. Fel arfer, mae cyrsiau o'r fath yn cynnwys astudiaeth sy'n gyfatebol ag o leiaf pedair blynedd academaidd o addysg amser llawn yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, a phum mlynedd yn yr Alban. Yn rhan o'r pum mlynedd hyn, mae astudiaeth sy'n gyfatebol ag o leiaf blwyddyn academaidd o addysg amser llawn ar lefel 7 y FHEQ neu lefel 11 SCQF y FQHEIS, ac mae deilliannau terfynol y cymwysterau eu hunain yn bodloni disgwyliadau disgrifydd cymhwyster addysg uwch yn llawn sydd ar lefel 7 y FHEQ neu lefel 11 SCQF y FQHEIS. Mae astudiaethau ar lefel baglor wedi eu hintegreiddio yn yr astudiaethau lefel meistr, a chynllunnir y cyrsiau i gyfateb yn llawn â disgrifyddion y cymwysterau ar lefel 6 y FHEQ neu lefel 10 SCQF y FQHEIS, yn ogystal â'r rheiny ar lefel 7 y FHEQ neu lefel 11 SCQF y FQHEIS. Yn aml iawn, gelwir cymwysterau o'r fath yn 'raddau meistr integredig' i gydnabod y cyfnod astudio blaenorol ar lefelau is (sydd fel arfer yn bodloni disgwyliadau disgrifydd cymhwyster addysg uwch sydd ar lefel 6 neu lefel 10).

e) Mae cyrsiau gradd gyntaf mewn meddygaeth, deintyddiaeth a milfeddygaeth yn cynnwys cwrs astudio integredig ac yn ymwneud ag arfer proffesiynol sy'n ymestyn dros nifer o lefelau. Er bod deilliannau terfynol y cymwysterau eu hunain fel arfer yn bodloni disgwyliadau disgrifydd cymhwyster addysg uwch ar lefel 7 neu lefel 11, mae'r cymwysterau hyn yn aml yn cadw'r teitlau a ganlyn am resymau hanesyddol: Baglor mewn Meddygaeth / Baglor mewn Llawfeddygaeth (MB ChB neu BM BS), Baglor mewn Llawfeddygaeth Ddeintyddol (BDS), Baglor mewn Milfeddygaeth (BVetMed/BVSc). Mae'r teitl 'Dr' a ddefnyddir gan feddygon yn dalfyriad hanesyddol am y proffesiwn; nid yw'r teitl hwn yn arwyddo cymhwyster ar lefel doethuriaeth (lefel 8 y FHEQ neu lefel 12 SCQF y FQHEIS).

f) Yn yr Alban, mae gan nifer fechan o brifysgolion (Aberdeen, Glasgow, Caeredin a St Andrews - yr Hynafion Albanaidd) draddodiad hir o labelu rhai graddau academaidd israddedig penodol yn Feistri yn y Celfyddydau (MA). Mae'r teitl hwn yn adlewyrchu defod ac arfer hanesyddol yn yr Alban; nid yw hyn yn awgrymu bod deilliannau dysgu'r cyrsiau wedi eu gosod ar lefel 11 SCQF y FQHEIS. Mae'r cyrsiau hyn wedi eu gosod ar lefelau 9 neu 10 SCQF y FQHEIS.

g) Nid yw'r graddau meistr yn y celfyddydau (MA) a ddyfernir gan Brifysgol Rhydychen a Phrifysgol Caergrawnt yn gymwysterau academaidd. Fel arfer, dyfernir y radd 'MA', ar gais,

i raddedigion sydd â gradd baglor y prifysgolion hyn. Nid oes angen rhagor o astudio neu asesiad, ond efallai y bydd gofyn i'r derbynnydd dalu ffi. Ym Mhrifysgol Rhydychen, gellir dyfarnu'r radd MA yn ystod neu ar ôl y 21ain tymor yn dilyn matricwleiddio, ac ym Mhrifysgol Caergrawnt, gellir dyfarnu'r radd MA chwe blynedd ar ôl diwedd y tymor cyntaf.

### 4.18 Disgrifydd cymhwyster addysg uwch sydd ar lefel 8 y FHEQ neu lefel 12 SCQF y FQHEIS

**Gradd doethuriaeth**

Mae'r disgrifydd sydd wedi ei nodi ar gyfer y lefel hon yn y Fframweithiau'n berthnasol i bob gradd doethuriaeth, a ddylai gyfateb â'r disgrifydd yn llawn. Dylid defnyddio'r disgrifydd cymhwyster hwn hefyd fel pwynt cyfeirio ar gyfer cymwysterau eraill sydd ar lefel 8/12.

**Dyfernir graddau doethuriaeth i fyfyrwyr sydd wedi dangos:**

- eu bod wedi creu a dehongli gwybodaeth newydd, drwy wneud gwaith ymchwil gwreiddiol neu arferion addysgol uwch eraill, o safon sy'n bodloni disgwyliadau adolygwyr sy'n gymheiriaid, ac sy'n ehangu ffiniau gwybodaeth y maes astudio, ac y mae eu canlyniadau'n deilwng o gael eu cyhoeddi
- ffordd systematig o gaffael a deall corff sylweddol o wybodaeth sy'n flaenllaw yn y maes academaidd neu'r maes o arfer proffesiynol
- y gallu cyffredinol i gysyniadu, cynllunio a gweithredu prosiect er mwyn datblygu gwybodaeth, cymwysiadau neu ddealltwriaeth newydd sy'n flaenllaw yn y pwnc, ac i addasu cynllun y prosiect os bydd problemau annisgwyl yn codi
- dealltwriaeth fanwl o dechnegau sy'n berthnasol i wneud gwaith ymchwil ac ymholi academaidd o safon uwch.

**Fel arfer, bydd dalwyr y cymhwyster yn gallu:**

- ffurfio barn wybodus am faterion cymhleth mewn meysydd arbenigol, yn aml iawn heb ddata cyflawn, ac yn gallu cyfleu eu syniadau a'u casgliadau i arbenigwyr ac i gynulleidfa fwy cyffredinol mewn ffordd glir ac effeithiol
- parhau i wneud gwaith ymchwil a datblygu pur a/neu gymhwysol ar lefel uwch, gan wneud cyfraniadau sylweddol i'r gwaith o ddatblygu technegau, syniadau neu ddulliau newydd.

**A bydd dalwyr y cymhwyster:**

- yn meddu ar y nodweddion a'r sgiliau trosglwyddadwy sy'n ofynnol ar gyfer swyddi lle bydd gofyn iddyn nhw gymryd cyfrifoldeb personol a dangos blaengaredd yn ymreolaethol i raddau mawr mewn sefyllfaoedd cymhleth na ellir eu rhagweld, mewn amgylcheddau proffesiynol neu amgylcheddau cyfatebol.

a) Dyfernir graddau doethuriaeth am greu a dehongli, llunio ac/neu esbonio gwybodaeth, mewn ffordd sy'n ehangu ffiniau gwybodaeth y maes astudio, drwy wneud gwaith ymchwil gwreiddiol fel arfer.

b) Bydd dalwyr graddau doethuriaeth yn gallu cysyniadu, cynllunio a gweithredu prosiectau er mwyn datblygu corff sylweddol o wybodaeth a/neu ddealltwriaeth newydd. Mae dalwyr graddau doethuriaeth yn meddu ar y nodweddion sy'n ofynnol ar gyfer swyddi lle bydd gofyn iddyn nhw allu ffurfio barn wybodus am faterion cymhleth mewn meysydd arbenigol, a chymryd agwedd arloesol tuag at fynd i'r afael â phroblemau a'u datrys.

c) Fel arfer, mae cyrsiau gradd doethuriaeth a allai gynnwys elfen sylweddol a addysgir yn ogystal â'r elfen ymchwil (er enghraifft, cyrsiau gradd doethuriaeth broffesiynol), yn arwain at ddyfarniadau sy'n cynnwys enw'r maes astudio yn eu teitl (er enghraifft, 'EdD' am Ddoethur mewn Addysg neu 'DClinPsy' am Ddoethur mewn Seicoleg Glinigol).

Nod cyrsiau gradd doethuriaeth broffesiynol yw datblygu arfer proffesiynol yr unigolyn a'i gefnogi i gynhyrchu cyfraniad i'r corff o wybodaeth (broffesiynol).

d) Mae'r talfyriadau 'PhD' a 'DPhil' yn cael eu defnyddio'n gyffredin am raddau doethuriaeth a ddyfernir ar sail gwaith ymchwil gwreiddiol.

e) Fel arfer, i gyflawni deilliannau dysgu sy'n cyfateb â'r disgrifydd cymhwyster ar gyfer y radd doethuriaeth mae gofyn gwneud astudiaeth sy'n gyfatebol ag o leiaf tair blynedd galendr o addysg amser llawn.

f) Gellir dyfarnu graddau doethuriaeth uwch i gydnabod corff sylweddol o waith ymchwil gwreiddiol a wneir dros flynyddoedd lawer. Fel arfer, cyflwynir portffolio gwaith i gael ei asesu sydd eisoes wedi ei gyhoeddi a'i adolygu gan gymheiriaid. Mae'r rhan fwyaf o'r cyrff dyfarnu graddau'n cyfyngu ymgeisiaeth i raddedigion neu i bobl sydd wedi bod yn rhan o'u staff academaidd eu hunain ers nifer o flynyddoedd.

# 5 Defnyddio disgrifyddion cymhwyster y DU

## Y berthynas rhwng y disgrifyddion cymhwyster a phwyntiau cyfeirio eraill y DU ar gyfer safonau academaidd

5.1 **Disgrifyddion cymhwyster** yw datganiadau generig o'r deilliannau astudio a fwriedir sy'n ymestyn dros nifer o bynciau. Nod nifer fawr o gyrsiau academaidd yw datblygu sgiliau cyffredinol a phenodol. Nid yw'r disgrifyddion cymhwyster yn ymdrin â sgiliau penodol am fod llawer o'r sgiliau, ac i ba raddau y mae angen eu datblygu, yn ymwneud yn benodol â phwnc neu broffesiwn arbennig. Felly, ymdrinnir â nhw mewn ffordd fwy priodol mewn Datganiadau Meincnodi Pwnc a deilliannau dysgu cyrsiau unigol.

5.2 Mae Datganiadau Meincnodi Pwnc yn disgrifio'r deilliannau dysgu a fwriedir (yn nhermau gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau) a'r priodoleddau sydd wedi eu nodi yn y disgrifyddion cymhwyster, ar gyfer meysydd astudio penodol. Maent yn nodi trothwyon ac (mewn rhai achosion) safonau academaidd nodweddiadol a rhagorol ar gyfer graddau baglor gydag anrhydedd, ac ar gyfer graddau meistr sy'n cynnwys elfen sylweddol o ddarpariaeth a addysgir mewn pwnc penodol (er enghraifft, mewn pynciau lle mae cymwysterau gradd meistr integredig yn bethau cyffredin).

5.3 Mae statws rheoleiddiol Datganiadau Meincnodi Pwnc yn amrywio yn dibynnu ar awdurdodaethau addysgol y DU. Yn Lloegr, nid oes gan Ddatganiadau Meincnodi Pwnc statws y safonau a gydnabyddir gan y sector, fel sydd wedi ei nodi yn fframwaith rheoleiddio'r Swyddfa Myfyrwyr. Fodd bynnag, maen nhw wedi eu nodi fel pwynt cyfeirio allweddol, fel sy'n briodol, ar gyfer safonau academaidd yng Nghymru o dan y Fframwaith Asesu Ansawdd ar gyfer Cymru, ac yn yr Alban yn rhan o'r Fframwaith Gwella Ansawdd. Mae Datganiadau Meincnodi Pwnc yn rhan o'r gofynion ansawdd cyfredol yng Ngogledd Iwerddon.

5.4 Hefyd, mae QAA yn cyhoeddi arweiniad ychwanegol am nodweddion mathau neilltuol o gymwysterau (graddau doethuriaeth, graddau meistr, cymwysterau sy'n ymwneud â mwy nag un corff dyfarnu graddau, graddau sylfaen, micro-gymwysterau, ac addysg uwch mewn prentisiaethau). Mae'r Datganiadau o Nodweddion hyn yn cyflenwi'r wybodaeth sydd yn y fframweithiau, ac yn ei rhoi yn ei chyd-destun, gan roi rhagor o fanylion am nodweddion arbennig cymwysterau ar lefelau penodol.

## Y berthynas rhwng disgrifyddion cymhwyster a phwyntiau cyfeirio'r cyrff dyfarnu eu hunain

5.5 Mae'r cyrff dyfarnu graddau (a'u darparwyr partner) yn gyfrifol am sicrhau bod deilliannau dysgu cyrsiau unigol (neu feini prawf dyfarnu mewn perthynas â graddau ymchwil) yn alinio â'r disgrifydd cymhwyster priodol sydd wedi ei nodi yn y fframwaith ar gyfer cymwysterau addysg uwch sy'n berthnasol. Mae cyrff dyfarnu graddau'n cymeradwyo deilliannau dysgu'r cwrs ar gyfer pob dyfarniad y maent yn ei ddyfarnu, yn cynnwys deilliannau dysgu ar wahân ar gyfer cymwysterau canolradd neu gymwysterau wrth adael cwrs.

5.6 Mae ymgysylltiad rhwng y gwahanol elfennau sy'n tanategu'r agwedd tuag at ddyfarnu cymwysterau sy'n seiliedig ar ddeilliannau dysgu - megis disgrifyddion cymhwyster, deilliannau dysgu cyrsiau unigol, a, lle bo'n berthnasol i'r wlad benodol, Datganiadau o Nodweddion a Datganiadau Meincnodi Pwnc. Ar lefel cwrs, mae'r elfennau hyn wedi eu cysylltu â'i gilydd drwy fframweithiau'r DU, ac yn cael eu defnyddio gan gymunedau pwnc a chyrff dyfarnu graddau unigol.

5.7 Rhoddir cofnod manwl o'u hastudiaethau i fyfyrwyr pan maen nhw'n gadael eu cwrs astudio (pan maen nhw'n cwblhau neu'n gynharach), sy'n rhoi tystiolaeth o'u cyflawniad. Gallai hwn fod yn drawsgrifiad, Atodiad Diploma ac/neu Adroddiad Cyrhaeddiad Addysg Uwch.

# 6 Cyfrifoldebau am weithredu agwedd tuag at ddyfarnu cymwysterau sy'n seiliedig ar ddeilliannau dysgu

### Gosod cymwysterau ar y lefelau perthnasol yn y Fframweithiau ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch Cyrff Dyfarnu Graddau'r DU

6.1 Fel cyrff ymreolaethol sy'n dyfarnu eu cymwysterau eu hunain, mae cyrff dyfarnu graddau'n gyfrifol am ddangos bod pob un o'u cymwysterau wedi derbyn y lefel briodol yn fframwaith perthnasol y DU. Mae cyrff dyfarnu graddau'n ystyried y lefel fframwaith y mae'r rhan fwyaf o ddeilliannau dysgu'r cwrs yn cyfateb orau ag o (gan ddefnyddio'r disgrifydd cymhwyster fel pwynt cyfeirio). Er enghraifft, efallai fod gan gwrs sy'n arwain at dystysgrif neu ddiploma i raddedigion rai deilliannau dysgu a osodir ar lefel 7 y FHEQ neu lefel 11 SCQF y FQHEIS, ond yr unig ffordd y gellid cyfiawnhau gosod y cwrs ar y lefel hon a defnyddio'r gair 'ôl-raddedig' yn nheitl y dyfarniad fyddai os byddai pob deilliant dysgu, neu'r rhan fwyaf ohonyn nhw'n cael eu hasesu ar y lefelau hynny.

6.2 Cyflawnir y broses aseinio hon wrth gymeradwyo cyrsiau. Cymeradwyo cwrs yw'r broses sicrhau ansawdd a ddefnyddir gan gyrff dyfarnu graddau i graffu ar gyrsiau astudio a gynigir er mwyn sicrhau eu bod yn bodloni safonau trothwy'r DU ar gyfer y cymhwyster penodol, yn ogystal â safonau academaidd ac ansawdd y corff dyfarnu graddau sy'n dyfarnu'r cymhwyster. Gwelwch thema cyngor ac arweiniad y Cod Ansawdd am Gynllunio a datblygu cyrsiau.

### Cynllunio, cymeradwyo, monitro ac adolygu cyrsiau a chymwysterau

6.3 Wrth gynllunio, cymeradwyo, monitro ac adolygu cyrsiau astudio, bydd cyrff dyfarnu graddau'n ystyried:

- a yw deilliannau dysgu a fwriedir y cwrs yn cyfateb â disgrifyddion cymhwyster y fframwaith ar gyfer cymwysterau addysg uwch sy'n berthnasol yn y DU
- a oes maint digonol o astudiaeth a asesir a fydd yn dangos bod y deilliannau dysgu wedi eu cyflawni
- a yw cynllun y cwricwlwm a'r asesiadau'n caniatáu i bob myfyriwr sy'n astudio ar y cwrs gael cyfle i gyflawni a dangos y deilliannau dysgu a fwriedir
- gofynion rheoleiddiol a gofynion eraill unrhyw gorff PSRh sy'n cydnabod neu'n achredu cyrsiau penodol at ddibenion proffesiynol.

6.4 Gellir mynegi'r maint o ddysgu sydd ei angen i gyflawni deilliannau dysgu'r cwrs drwy nodi maint yr astudio - er enghraifft, yr amser mae'n ei gymryd i gwblhau'r cymhwyster - neu drwy ddefnyddio credydau academaidd. Er nad yw'r FHEQ yn nodi lleiafswm y meintiau dysgu neu'r meintiau dysgu nodweddiadol ar gyfer cymwysterau drwy gyfeirio at unedau credyd, mae'r tabl yn Atodiad C yn dangos y nifer arferol o gredydau ar bob lefel. Fodd bynnag, ni ellir dyfarnu 'gradd', er enghraifft, nes y cyflawnir deilliannau dysgu'r cwrs, neu y cyflawnir y tu hwnt i'r deilliannau dysgu hynny, a dylai'r rhain gyfateb â'r disgrifydd cymhwyster perthnasol.

### Asesu deilliannau dysgu

6.5 Mae asesiad effeithiol a phriodol yn hanfodol i weithrediad fframwaith cymwysterau sydd wedi ei seilio ar ddeilliannau dysgu. Defnyddir asesiadau i roi cyfle i fyfyrwyr ddangos eu bod wedi cyflawni deilliannau dysgu'r cwrs perthnasol. Mae cyrff dyfarnu graddau'n beirniadu perfformiad myfyrwyr yn erbyn y safonau a osodir ac yn sicrhau bod cymwysterau'n cael eu dyfarnu dim ond pan fo'r deilliannau dysgu perthnasol wedi eu cyflawni yn y ffordd hon (gwelwch thema cyngor ac arweiniad y Cod Ansawdd am Drefnau asesu).

## Dyfarnu cymwysterau

6.6 Mae'n bosibl ystyried rhoi cymhwyster lefel is i'r myfyrwyr hynny sydd wedi methu â chyflawni deilliannau dysgu gofynnol eu cwrs ar gyfer lefel benodol. Ond, er mwyn dyfarnu'r cymhwyster is hwnnw, mae'n rhaid i'r myfyriwr fod wedi cyflawni deilliannau dysgu'r cwrs sy'n rhaid eu cyflawni (neu'r meini prawf dyfarnu os yw'n radd ymchwil) ar gyfer y cymhwyster is hwnnw. Er enghraifft:

- gellir dyfarnu gradd DipHE i fyfyriwr sydd wedi methu â chyflawni'r deilliannau dysgu sy'n ofynnol i ennill gradd baglor dim ond pan fo'r myfyriwr wedi dangos y deilliannau dysgu sydd wedi eu pennu ar gyfer gradd DipHE (ar lefel 5 y FHEQ neu lefel 8 SCQF y FQHEIS) ar y cwrs hwn
- Gellir dyfarnu gradd MPhil i fyfyriwr sydd wedi methu â chyflawni'r deilliannau dysgu sy'n ofynnol i ennill gradd doethuriaeth (ar lefel 8 y FHEQ neu lefel 12 SCQF y FQHEIS) dim ond pan fo'r myfyriwr wedi dangos y deilliannau dysgu ac wedi bodloni'r meini prawf dyfarnu sydd wedi eu pennu ar gyfer gradd MPhil (ar lefel 7 y FHEQ neu lefel 11 SCQF y FQHEIS).

6.7 Mae cyrff dyfarnu graddau'n sicrhau:

- bod deilliannau dysgu'r cwrs neu'r meini prawf dyfarnu sy'n rhaid eu cyflawni ar gyfer pob un o'u cyrsiau a'u cymwysterau'n cael eu disgrifio'n glir (yn cynnwys unrhyw gymwysterau canolradd neu gymwysterau wrth adael cwrs sy'n gynwysedig ynddynt)
- bod cyflawniad deilliannau dysgu a/neu feini prawf ymchwil perthnasol y cwrs wedi ei ddangos cyn dyfarnu'r cymhwyster
- nad yw trefnau asesu sy'n caniatáu cyfadfer neu esgusodi'n cael eu defnyddio mewn ffordd a allai ganiatáu i gymhwyster gael ei ddyfarnu heb i'r myfyriwr ddangos eu bod wedi cyflawni deilliannau dysgu'r cwrs yn llawn.

Gwelwch themâu cyngor ac arweiniad y Cod Ansawdd am Drefnau asesu a Graddau ymchwil.

## Y trefnau enwi ar gyfer cymwysterau

6.8 Er mwyn sicrhau bod y cyhoedd yn deall y cyflawniadau a gynrychiolir gan gymwysterau addysg uwch, mae'n ofynnol defnyddio teitlau cymwysterau mewn ffordd eglur a chyson.

6.9 Mae teitl pob cymhwyster yn adlewyrchiad cywir a phriodol o'r lefel o gyflawniad a natur, maint a maes/meysydd yr astudio a wnaed, ac nid yw'r teitl yn gamarweiniol.

## Y lefel

6.10 Er mwyn sicrhau bod teitlau cymwysterau'n cyfleu gwybodaeth gywir am lefel y cymhwyster:

- defnyddir teitlau sydd â'r atodiad 'gydag anrhydedd' (er enghraifft, gradd baglor gydag anrhydedd), teitlau 'meistr' (er enghraifft, Meistr yn y Celfyddydau) a theitlau 'doethur' (er enghraifft, Doethur mewn Athroniaeth) dim ond ar gyfer y cymwysterau hynny sy'n cyfateb yn llawn â disgwyliadau'r disgrifyddion ar gyfer cymwysterau a osodir ar lefelau 6, 7 ac 8 y FHEQ neu lefelau 10, 11 a 12 SCQF y FQHEIS, yn y drefn honno (ond gwelwch y nodyn am ddisgrifydd cymhwyster y radd meistr)
- defnyddir teitlau sydd â'r atodiad 'i raddedigion' (er enghraifft, 'diploma i raddedigion') dim ond ar gyfer y cymwysterau hynny sy'n deillio o gyrsiau astudio y mae angen meddu ar radd, neu gymhwyster cyfatebol, i gael lle ar y cwrs fel arfer, ac sydd â deilliannau dysgu sy'n cyfateb â rhannau perthnasol o'r disgrifydd ar gyfer cymhwyster a osodir ar lefel 6 y FHEQ neu lefelau 9 neu 10 SCQF y FQHEIS

- cedwir teitlau sydd â'r atodiad 'ôl-raddedig' (er enghraifft, 'diploma ôl-raddedig') ar gyfer y cymwysterau hynny lle mae deilliannau dysgu'r cwrs astudio'n cyfateb â, neu'n mynd yn uwch na, rhannau perthnasol y disgrifydd ar gyfer cymhwyster a osodir ar lefel 7 y FHEQ neu lefel 11 SCQF y FQHEIS.

6.11 Yn unol â'r uchod, cedwir y teitl 'Tystysgrif Addysg i Raddedigion (TAR)' ar gyfer y cymwysterau TAR hynny a osodir ar lefel 7 y FHEQ ac sy'n cyfateb â'r disgrifydd cymhwyster ar gyfer lefel 7. Yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, defnyddir y teitl 'Tystysgrif Addysg Broffesiynol i Raddedigion (TBAR)' ar gyfer y cymwysterau TAR hynny a osodir ar lefel 6 y FHEQ ac sy'n cyfateb â'r disgrifydd cymhwyster sydd ar lefel 6 y FHEQ.[2] Mae rhagor o arweiniad am y teitl TAR ar gael ar wefan QAA.

### Maint yr astudio

6.12 Dyfernir cymwysterau addysg uwch ar sail tystiolaeth o gyflawniad deilliannau dysgu yn hytrach na nifer y blynyddoedd astudio, ond gellir cyfeirio at faint yr astudio a nifer y credydau er mwyn dangos pryd yn fras y disgwylir i'r deilliannau dysgu perthnasol gael eu cyflawni. Felly, gellir defnyddio maint yr astudio a nifer y credydau fel dangosydd o ehangder a dyfnder y deilliannau dysgu ac, o ganlyniad, maen nhw'n dangos y gwahaniaeth rhwng mathau o gymwysterau sydd ar yr un lefel.

6.13 Er enghraifft, mae'r gair 'diploma' yn y teitl yn arwyddo maint llai o astudio fel arfer na'r maint ar gyfer gradd, ond mwy na'r maint ar gyfer tystysgrif (a'r gwahaniaethu cysylltiedig yn yr amrediad o ddeilliannau dysgu a fwriedir). Mae darparwyr addysg uwch yn cynnig amrywiaeth o ddiplomâu a thystysgrifau, fel a ganlyn:

- Gwahaniaethir rhwng diplomâu israddedig (er enghraifft, DipHE) a thystysgrifau israddedig (er enghraifft, CertHE) yn ôl lefel a maint yr astudio; gosodir y cyntaf ar lefel 5 y FHEQ neu lefel 8 SCQF y FQHEIS, a'r ail ar lefel 4 y FHEQ neu lefel 7 SCQF y FQHEIS.
- Gosodir diplomâu a thystysgrifau i raddedigion ar yr un lefel (lefel 6 y FHEQ neu lefel 10 SCQF y FQHEIS), ond gwahaniaethir rhyngddynt yn ôl maint yr astudio a'r deilliannau dysgu. Fel arfer, mae'r gair 'tystysgrif' yn y teitl yn arwyddo cyflawniad deilliannau dysgu a fyddai'n awgrymu cwblhad astudiaeth sy'n gyfatebol ag o leiaf traean o flwyddyn academaidd o addysg amser llawn, ac mae'r gair 'diploma' yn y teitl fel arfer yn arwyddo cwblhad astudiaeth sy'n gyfatebol ag o leiaf dwy ran o dair o flwyddyn academaidd o addysg amser llawn ar y lefel berthnasol (ac, os rhoddir credydau, nifer y credydau a bennir gan y fframwaith credydau perthnasol).
- Gosodir diplomâu a thystysgrifau ôl-raddedig ar yr un lefel (lefel 7 y FHEQ neu lefel 11 SCQF y FQHEIS), ond gwahaniaethir rhyngddynt yn ôl maint yr astudio a'r deilliannau dysgu. Fel arfer, mae'r gair 'tystysgrif' yn y teitl yn arwyddo cyflawniad deilliannau dysgu a fyddai'n awgrymu cwblhad astudiaeth sy'n gyfatebol ag o leiaf traean o flwyddyn academaidd o addysg amser llawn, ac mae'r gair 'diploma' yn y teitl fel arfer yn arwyddo cwblhad astudiaeth sy'n gyfatebol ag o leiaf dwy ran o dair o flwyddyn academaidd o addysg amser llawn ar y lefel berthnasol (ac, os rhoddir credydau, nifer y credydau a bennir gan y fframwaith credydau perthnasol).

### Natur yr astudio

6.14 Dyfernir y teitl 'gradd' dim ond pan gyflawnir yn llawn y deilliannau dysgu hynny a nodir yn y disgrifydd cymhwyster perthnasol a ganlyn:

---

[2] Yn yr Alban, mae Diplomâu Proffesiynol Addysg i Raddedigion wedi eu gosod ar yr un lefel â Diplomâu Addysg i Raddedigion (sef lefel 11 SCQF) ac nid yw'r defnydd a wneir o'r gair 'proffesiynol' yn y teitl yn awgrymu bod y lefel yn wahanol.

- defnyddir y term 'gradd sylfaen' dim ond mewn perthynas â'r cymwysterau hynny sydd ar lefel 5 y FHEQ
- defnyddir y term 'gradd baglor (heb anrhydedd) yn yr Alban' dim ond mewn perthynas â'r cymwysterau hynny sydd ar lefel 9 SCQF y FQHEIS
- defnyddir y term 'gradd baglor gydag anrhydedd' dim ond mewn perthynas â'r cymwysterau hynny sydd ar lefel 6 y FHEQ neu lefel 10 SCQF y FQHEIS
- defnyddir y term 'gradd meistr' dim ond mewn perthynas â'r cymwysterau hynny sydd ar lefel 7 y FHEQ neu lefel 11 SCQF y FQHEIS
- defnyddir y term 'gradd doethuriaeth' dim ond mewn perthynas â'r cymwysterau hynny sydd ar lefel 8 y FHEQ neu lefel 12 SCQF y FQHEIS.

Mae gwybodaeth ddefnyddiol am raddau sylfaen, a osodir ar lefel 5, ar gael i sefydliadau yn y Datganiad o Nodweddion ar gyfer Graddau Sylfaen (yn y Saesneg yn unig ar hyn o bryd).

6.15 Defnyddir y talfyriadau 'PhD' a 'DPhil' ar gyfer cymwysterau lle mae'r asesiad drwy waith cyhoeddedig neu draethawd terfynol yn unig; neu drwy waith celf, cyfansoddiad neu berfformiad sy'n cyd-fynd â sylwebaeth ysgrifenedig sy'n rhoi'r gwaith yn ei gyd-destun academaidd.

6.16 Fel arfer, defnyddir y talfyriad 'MPhil' ar gyfer cymwysterau a ddyfernir ar ôl cwblhau cyrsiau gradd meistr estynedig sydd fel arfer yn cynnwys elfen sylweddol o waith ymchwil neu ymholiad cyfatebol.

### Maes yr astudio

6.17 Fel arfer, mae teitlau a ddefnyddir ar gyfer cymwysterau doethuriaeth a ddyfernir ar ôl cwblhau cyrsiau sydd ag elfen sylweddol a addysgir ynddynt yn cynnwys enw'r maes astudio yn eu teitl (er enghraifft, 'EdD' am Ddoethur mewn Addysg).

6.18 Mae teitlau cymwysterau sy'n adlewyrchu'r ffocws ar y pwnc mewn cyrsiau astudio mewn dau faes astudio (er enghraifft, cymhwyster cyd-anrhydedd) yn defnyddio trefnau enwi ar sail:

- 'A a B' lle mae cydbwysedd bron yn gyfartal rhwng dwy ran gyfansoddol
- 'A gyda B' ar gyfer cyfuniad mawr/bach lle mae'r pwnc bach yn cyfrif am o leiaf chwarter y cwrs.

6.19 Fel arfer, nid yw teitlau cymwysterau'n adlewyrchu mwy na thri phwnc fel rhannau cyfansoddol. Lle mae mwy na thair rhan sylweddol, mae'n briodol defnyddio'r geiriau 'astudiaethau cyfun' yn y teitl.

## Atodiad A: Aelodau'r grŵp cynghori (ar gyfer fersiwn 2014)

Y manylion isod yw'r rhai a gyhoeddwyd yn argraffiad 2014 y ddogfen Fframweithiau.

| Enw | Swydd | Tadogaeth |
|---|---|---|
| Dr Jack Aitken | Cyfarwyddwr, Swyddfa'r Senedd | Prifysgol Glasgow |
| Wendy Appleby | Cofrestrydd a Phennaeth Gwasanaethau Myfyrwyr a'r Gofrestrfa | Coleg Prifysgol Llundain |
| Sarah Butler | Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Grŵp Datblygu Ansawdd | QAA (Cadeirydd) |
| Sarah Clark | Deon Ansawdd a Safonau | Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant |
| Dr Kirsty Conlon | Pennaeth Dysgu ac Addysgu ac Ehangu Mynediad | Prifysgolion yr Alban |
| Nick Davy | Rheolwr Polisi Addysg Uwch | Cymdeithas y Colegau |
| Lysandre de-la-Haye | Cyfarwyddwr Ansawdd, Prifysgol Newman, Birmingham | GuildHE |
| Dr Melinda Drowley | Pennaeth Safonau, Ansawdd a Gwelliant | QAA |
| Sheila Dunn | Rheolwr | Scottish Credit and Qualifications Framework Partnership (SCQF) |
| Dr Dawn Edwards | Pennaeth Sicrhau a Gwella Ansawdd | Coleg Cerdd Brenhinol y Gogledd, Manceinion |
| Nick Entwistle | Swyddog Ymchwil a Pholisi Addysg Uwch | Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr (UCM) |
| Wilma Fee | Cyfarwyddwr Materion Myfyrwyr ac Academaidd | Prifysgol y Frenhines, Belfast |
| Yr Athro John Grattan | Dirprwy Is-Ganghellor (Dysgu ac Addysgu) | Prifysgol Aberystwyth |
| Jacqui Hare | Dirprwy Is-Ganghellor a Chyfarwyddwr Profiad Myfyrwyr, Prifysgol Metropolitan Caerdydd | Addysg Uwch Cymru |
| Stella Heath | Cyfarwyddwr Cynorthwyol | QAA Scotland (Cyd-Gadeirydd) |
| Yr Athro Ann Holmes | Dirprwy Is-Ganghellor (Academaidd) | Prifysgol Wolverhampton |
| Valerie Innes | Cyfarwyddwr Cynorthwyol | QAA Scotland |
| Yr Athro Denise McAlister | Dirprwy Is-Ganghellor (Dysgu, Addysgu a Phrofiad Myfyrwyr) | Prifysgol Ulster |

| | | |
|---|---|---|
| John O'Connor | Rheolwr Datblygu'r Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol (NFQ) | Quality and Qualifications Ireland (QQI) |
| Rowena Pelik | Cyfarwyddwr<br>(Cyn-gyfarwyddwr Strategaeth ac Arferion Academaidd) | QAA Scotland<br>(Prifysgol Napier Caeredin) |
| Alex Proudfoot | Rheolwr y Gymdeithas | Study UK |
| Julie Swan | Cyfarwyddwr Cyswllt Polisi Rheoleiddio a Pholisi Cymwysterau Galwedigaethol | Y Swyddfa Rheoleiddio Cymwysterau ac Arholiadau (Ofqual) |
| Greg Wade | Cynghorydd Polisi | Prifysgolion y DU |

**Aelodau cyswllt**

| Enw | Swydd | Tadogaeth |
|---|---|---|
| Mag. Elisabeth Frank | Cyfarwyddiaeth Gyffredinol, Prifysgolion, Prifysgolion y Gwyddorau Cymhwysol | Gweinyddiaeth Ffederal Gwyddoniaeth ac Ymchwil Awstria, cynrychiolydd Awstria ar rwydwaith cysylltiadau gwladol Proses Bologna ar gyfer y Fframweithiau Cymwysterau Cenedlaethol |
| Trevor Clark | Pennaeth Alinio Credydau Ewropeaidd a Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (FfCChC) | Llywodraeth Cymru |
| Aaron Porter | Cyfarwyddwr | Canolfan Genedlaethol Prifysgolion a Busnesau (NCUB) |

**Arsyllwyr**

| Enw | Swydd | Tadogaeth |
|---|---|---|
| Philip Lomas | Uwch-gynghorydd Polisi | Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau Llywodraeth y DU |
| Martina Brennan | Swyddog Polisi | Adran Cyflogaeth a Dysgu Gogledd Iwerddon |
| Natalie Williams-Hunt | Pennaeth Polisi Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol a Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru | Llywodraeth Cymru |

# Atodiad B: Disgrifyddion Dulyn

**Disgrifyddion Dulyn a rennir ar gyfer dyfarniadau cylch byr, y cylch cyntaf, yr ail gylch a'r trydydd cylch**[3]

Mae'r QF-EHEA yn nodi disgrifyddion cymhwyster generig ar gyfer pob cylch, a elwir yn 'Ddisgrifyddion Dulyn'. Cafodd y rhain eu datblygu fel cyfres a'r bwriad yw eu bod i gael eu darllen gan gyfeirio at ei gilydd.

Eu diben yn y lle cyntaf yw cyfateb cymwysterau â'i gilydd ac felly cânt eu defnyddio ar gyfer y fframweithiau cenedlaethol. Gall y fframweithiau cenedlaethol eu hunain gynnwys elfennau neu ddeilliannau ychwanegol, ac efallai y bydd ganddynt swyddogaethau mwy manwl a mwy penodol. Mae Disgrifyddion Dulyn wedi eu hadeiladu ar yr elfennau a ganlyn:

- gwybodaeth a dealltwriaeth
- defnyddio gwybodaeth a dealltwriaeth
- dod i gasgliadau
- sgiliau cyfleu a chyfathrebu
- sgiliau dysgu.

Mae Disgrifyddion Dulyn yn cynnig datganiadau generig am ddisgwyliadau nodweddiadol ar gyfer y cyflawniadau a'r galluoedd sy'n gysylltiedig â chymwysterau sy'n cynrychioli diwedd pob cylch ym Mhroses Bologna. Nid yw'n fwriad i'r disgrifyddion hyn fod yn orfodol; nid ydynt yn cynrychioli gofynion trothwy neu sylfaenol ac nid ydynt yn gynhwysfawr; gellir amnewid neu ychwanegu nodweddion tebyg neu gyfatebol.

Mae'r disgrifyddion yn amcanu i uniaethu â natur y cymhwyster cyfan. Nid yw'r disgrifyddion yn berthnasol i unrhyw bwnc penodol, ac nid ydynt wedi eu cyfyngu i feysydd academaidd, proffesiynol neu alwedigaethol penodol. Wrth ymdrin â meysydd astudio penodol, dylid darllen y disgrifyddion yng nghyd-destun y maes hwnnw a'r iaith a ddefnyddir ynddo. Lle bo'n bosibl, dylid croesgyfeirio'r disgrifyddion ag unrhyw ddisgwyliadau neu alluoedd a gyhoeddir gan y gymuned berthnasol o ysgolheigion ac/neu ymarferwyr. Bydd manylu pellach ar yr elfennau sydd ynddynt yn barod, a/neu gyflwyno elfennau newydd, yn rhan o'u hesblygiad fel pwyntiau cyfeirio i'r QF-EHEA.

Mae modd i ddarparwyr addysg uwch ddefnyddio Disgrifyddion Dulyn fel pwynt cyfeirio ychwanegol.

**Dyfernir y cymwysterau sy'n arwyddo cwblhad y cylch byr addysg uwch (yn rhan o'r cylch cyntaf) i fyfyrwyr sydd:**

- wedi dangos gwybodaeth a dealltwriaeth mewn maes astudio sy'n adeiladu ar eu haddysg uwchradd gyffredinol[4], ac sydd fel arfer ar lefel lle mae gwerslyfrau uwch ar gael; mae gwybodaeth o'r fath yn sylfaenol i faes gwaith neu alwedigaeth, datblygiad personol ac astudiaethau pellach er mwyn cwblhau'r cylch cyntaf
- yn gallu defnyddio eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth mewn cyd-destunau galwedigaethol
- yn gallu canfod a defnyddio data i lunio atebion i broblemau diriaethol a haniaethol diffiniedig

[3] Cyfeiriwyd at y rhain gynt fel dyfarniadau gradd baglor, meistr a doethuriaeth.

[4] Mae addysg uwchradd gyffredinol hefyd yn cynnwys addysg alwedigaethol os ydy hi'n cynnwys elfen ddigon cyffredinol.

- yn gallu cyfathrebu â'u cymheiriaid, eu goruchwylwyr a'u cleientiaid am eu dealltwriaeth, eu sgiliau a'u gweithgareddau
- yn meddu ar y sgiliau dysgu i wneud astudiaethau pellach gyda rhyw lefel o ymreolaeth.

**Dyfernir y cymwysterau sy'n arwyddo cwblhad y cylch cyntaf i fyfyrwyr sydd:**

- wedi dangos gwybodaeth a dealltwriaeth mewn maes astudio sy'n adeiladu ar eu haddysg uwchradd gyffredinol, ac sydd fel arfer ar lefel lle mae gwerslyfrau uwch ar gael ond sydd hefyd yn cynnwys rhai agweddau lle defnyddir y wybodaeth ddiweddaraf un o fewn eu maes astudio
- yn gallu defnyddio eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth mewn ffordd sy'n dangos agwedd broffesiynol[5] tuag at eu gwaith neu eu galwedigaeth, ac sy'n meddu ar gymwyseddau[6] a ddangosant fel arfer drwy lunio ac ymgynnal dadleuon a thrwy ddatrys problemau yn eu maes astudio
- yn gallu casglu a dehongli data perthnasol (yn eu maes astudio fel arfer) i ddod i gasgliadau sydd hefyd yn myfyrio ar faterion cymdeithasol, gwyddonol neu foesegol perthnasol
- yn gallu cyfleu gwybodaeth, syniadau, problemau ac atebion i arbenigwyr ac i gynulleidfa fwy cyffredinol
- wedi datblygu'r sgiliau dysgu hynny sydd eu hangen arnynt i barhau i wneud astudiaethau pellach gyda lefel uchel o ymreolaeth.

**Dyfernir y cymwysterau sy'n arwyddo cwblhad yr ail gylch i fyfyrwyr sydd:**

- wedi dangos gwybodaeth a dealltwriaeth sydd wedi ei seilio ar, ac sy'n ymestyn a/neu'n gwella, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth sy'n gysylltiedig â'r cylch cyntaf fel arfer, ac sy'n darparu sail neu gyfle i ddangos gwreiddioldeb wrth ddatblygu a/neu gymhwyso syniadau, a hynny'n aml iawn yng nghyd-destun ymchwil[7]
- yn gallu defnyddio eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth, a'u galluoedd i ddatrys problemau mewn amgylcheddau newydd neu anghyfarwydd yng nghyd-destunau ehangach (neu amlddisgyblaethol) eu maes astudio
- yn gallu cyfuno gwybodaeth ac ymdrin â chymhlethdod, a dod i gasgliadau ar sail gwybodaeth sy'n anghyflawn neu'n gyfyngedig, ond sy'n cynnwys myfyrio ar gyfrifoldebau cymdeithasol a moesegol sy'n gysylltiedig â chymhwyso eu gwybodaeth a barnau
- yn gallu cyfleu eu casgliadau, a'r wybodaeth a rhesymeg sy'n sail i'w casgliadau, i arbenigwyr ac i gynulleidfa fwy cyffredinol mewn ffordd glir a diamwys
- yn meddu ar y sgiliau dysgu sy'n eu galluogi i barhau i astudio mewn dull ymreolaethol neu o dan eu cyfarwyddyd eu hunain i raddau mawr efallai.

---

[5] Defnyddir y gair '**proffesiynol**' yn y disgrifyddion yn ei ystyr ehangaf, mewn perthynas â'r priodoleddau hynny sy'n gysylltiedig â gwneud gwaith neu alwedigaeth ac sy'n cynnwys cymhwyso rhai agweddau o ddysgu uwch. Ni ddefnyddir y term hwn mewn perthynas â'r gofynion penodol hynny sy'n ymwneud â phroffesiynau rheoleiddiedig. Gellir canfod yr olaf yma gyda'r proffil/fanyleb.

[6] Defnyddir y gair '**cymhwysedd**' yn y disgrifyddion yn ei ystyr ehangaf, sy'n caniatáu graddio galluoedd neu sgiliau. Ni ddefnyddir y term hwn yn yr ystyr fwy cul sy'n gysylltiedig ag asesiad 'ie/na' yn unig.

[7] Defnyddir y gair '**ymchwil**' mewn perthynas ag amrywiaeth eang o weithgareddau, yn aml iawn yng nghyd-destun maes astudio penodol; defnyddir y term yn y fan yma i gynrychioli astudiaeth neu ymchwiliad gofalus ar sail dealltwriaeth systematig ac ymwybyddiaeth feirniadol o wybodaeth. Defnyddir y gair mewn ffordd gynhwysol i gwmpasu'r amrediad o weithgareddau sy'n cefnogi gwaith gwreiddiol ac arloesol yn yr amrywiaeth gyfan o feysydd academaidd, proffesiynol a thechnolegol, yn cynnwys y dyniaethau, a'r celfyddydau traddodiadol, y celfyddydau perfformio a'r celfyddydau creadigol eraill. Ni ddefnyddir y term mewn unrhyw ystyr gyfyngedig neu waharddedig, na chwaith mewn perthynas â 'dull gwyddonol' traddodiadol yn unig.

**Dyfernir y cymwysterau sy'n arwyddo cwblhad y trydydd cylch i fyfyrwyr sydd:**

- wedi dangos dealltwriaeth systematig o faes astudio penodol ac wedi dangos meistrolaeth o'r sgiliau ymchwilio a'r dulliau ymchwilio sy'n gysylltiedig â'r maes hwnnw
- wedi dangos eu bod yn gallu datblygu, cynllunio, gweithredu ac addasu proses ymchwil sylweddol gyda gonestrwydd ysgolheigaidd
- wedi gwneud cyfraniad drwy wneud gwaith ymchwil gwreiddiol sy'n ehangu ffiniau gwybodaeth y maes astudio, a hynny drwy ddatblygu corff sylweddol o waith, y mae rhywfaint ohono'n deilwng o gael ei gyhoeddi mewn cylchgrawn cenedlaethol neu ryngwladol a adolygir gan gymheiriaid
- yn gallu dadansoddi'n feirniadol, gwerthuso a chyfuno syniadau newydd a chymhleth
- yn gallu cyfathrebu â'u cymheiriaid, y gymuned ehangach o ysgolheigion, a'r gymdeithas yn gyffredinol am eu meysydd arbenigedd
- yn fyfyrwyr y gellir disgwyl iddyn nhw allu hybu datblygiadau technolegol, cymdeithasol neu ddiwylliannol (mewn cyd-destunau academaidd a phroffesiynol) mewn cymdeithas sy'n seiliedig ar wybodaeth.

**O'r cylch cyntaf (baglor) i'r ail gylch (meistr) i raddau doethuriaeth: y gwahaniaethau/ 'newidiadau graddol' rhwng y Disgrifyddion Dulyn perthnasol**

Mae'r Cyd-fenter Ansawdd hefyd wedi cymharu'r disgrifyddion ac wedi nodi'r newidiadau graddol a welir o un cylch i'r nesaf ymhob un o'r elfennau hyn.

| **gwybodaeth a dealltwriaeth…** | |
|---|---|
| [cylch byr | …mewn maes astudio sy'n adeiladu ar addysg uwchradd gyffredinol, ac sydd fel arfer ar lefel lle mae gwerslyfrau uwch ar gael… |
| Y cylch cyntaf | [sydd ar lefel] lle mae gwerslyfrau uwch ar gael [gyda] rhai agweddau lle defnyddir y wybodaeth ddiweddaraf un o fewn eu maes astudio… |
| Yr ail gylch | sy'n darparu sail neu gyfle i ddangos gwreiddioldeb wrth ddatblygu neu gymhwyso syniadau… yn aml iawn yng nghyd-destun ymchwil… |
| Graddau doethuriaeth | [sy'n cynnwys] dealltwriaeth systematig o'u maes astudio a meistrolaeth o'r dulliau ymchwilio sy'n gysylltiedig â'r maes hwnnw… |
| **defnyddio a chymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth…** | |
| [cylch byr | yn aml iawn mewn cyd-destunau galwedigaethol… |
| Y cylch cyntaf | [drwy] lunio ac ymgynnal dadleuon… |
| Yr ail gylch | [drwy ddangos] galluoedd i ddatrys problemau mewn amgylcheddau newydd neu anghyfarwydd mewn cyd-destunau ehangach (neu amlddisgyblaethol)… |
| Graddau doethuriaeth | [drwy ddangos] y gallu i ddatblygu, cynllunio, gweithredu ac addasu proses ymchwil sylweddol gyda gonestrwydd ysgolheigaidd [sydd wedi] gwneud cyfraniad sy'n ehangu ffiniau gwybodaeth y maes astudio drwy ddatblygu corff sylweddol o waith, y mae rhywfaint ohono'n deilwng o gael ei gyhoeddi mewn cylchgrawn cenedlaethol neu ryngwladol a adolygir gan gymheiriaid… |

| y gallu i ddod i gasgliadau… | |
|---|---|
| [cylch byr | [drwy] ganfod a defnyddio data i lunio atebion i broblemau diriaethol a haniaethol diffiniedig… |
| Y cylch cyntaf | [drwy] gasglu a dehongli data perthnasol… |
| Yr ail gylch | [drwy] gyfuno gwybodaeth ac ymdrin â chymhlethdod, ac i ddod i gasgliadau ar sail data sy'n anghyflawn neu'n gyfyngedig… |
| Graddau doethuriaeth | [drwy] ddadansoddi'n feirniadol, gwerthuso a chyfuno syniadau newydd a chymhleth… |
| **y gallu i gyfleu/gyfathrebu…** | |
| [cylch byr | [cyfathrebu] â'u cymheiriaid, eu goruchwylwyr a'u cleientiaid am eu dealltwriaeth, eu sgiliau a'u gweithgareddau… |
| Y cylch cyntaf | [cyfleu] gwybodaeth, syniadau, problemau ac atebion… |
| Yr ail gylch | [cyfleu] eu casgliadau, a'r wybodaeth a rhesymeg sy'n sail i'w casgliadau, i arbenigwyr ac i gynulleidfa fwy cyffredinol… |
| Graddau doethuriaeth | [cyfathrebu] â'u cymheiriaid, y gymuned ehangach o ysgolheigion, a'r gymdeithas yn gyffredinol am eu meysydd arbenigedd… |
| **sgiliau dysgu…** | |
| [cylch byr | i wneud astudiaethau pellach gyda rhyw lefel o ymreolaeth… |
| Y cylch cyntaf | sydd eu hangen arnynt i barhau i wneud astudiaethau pellach gyda lefel uchel o ymreolaeth… |
| Yr ail gylch | [sy'n eu galluogi] i astudio mewn dull ymreolaethol neu o dan eu cyfarwyddyd eu hunain i raddau mawr efallai… |
| Graddau doethuriaeth | [y disgwylir i fyfyrwyr feddu arnynt i'w galluogi i] hybu datblygiadau technolegol, cymdeithasol neu ddiwylliannol mewn cyd-destunau academaidd a phroffesiynol… |

# Atodiad C: Tabl dangosol o gredydau

Mae'r tabl yma'n dangos y trefniadau credyd a ddefnyddir ym mhedair awdurdodaeth y DU. Mae'n nodi'r nifer nodweddiadol o gredydau sy'n gysylltiedig â chynllun y cyrsiau sy'n arwain at y prif gymwysterau addysg uwch a ddyfernir gan gyrff dyfarnu graddau yng Nghymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon a Lloegr. Gellir gweld y wybodaeth gynhwysfawr ddiweddaraf am gredydau yn y fframweithiau credydau perthnasol eu hunain, fel a ganlyn:

Fframwaith Credydau Addysg Uwch i Loegr (a ddefnyddir yng Ngogledd Iwerddon hefyd)

Fframwaith Credydau a Chymwysterau'r Alban (SCQF)

Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (FfCChC)

Mae colofnau 4 i 6 yn dangos yr isafswm credyd sy'n gysylltiedig â phob cymhwyster fel arfer (gyda'r nifer uchaf neu leiaf sy'n dderbyniol ar y lefel benodol i'w gweld mewn cromfachau). Mewn llawer o achosion, bydd nifer y credydau ar gyfer cymwysterau'n uwch na'r isafswm.

<table>
<tr><th>1</th><th>2</th><th>3</th><th>4</th><th>5</th><th>6</th><th>7</th></tr>
<tr><th>Esiamplau o gymwysterau addysg uwch nodweddiadol a ddyfernir ar y gwahanol lefelau</th><th>Lefel y FHEQ[a]</th><th>Lefel y SCQF[b]</th><th>Lloegr / Gogledd Iwerddon</th><th>Yr Alban</th><th>Cymru</th><th>Yr ystodau o bwyntiau ECTS[c] yn ôl y QF-EHEA</th></tr>
<tr><td>Graddau doethuriaeth (PhD/DPhil)</td><td rowspan="2">8</td><td rowspan="2">12</td><td colspan="3">Heb gredydau fel arfer</td><td rowspan="2">Heb gredydau fel arfer</td></tr>
<tr><td>Graddau doethuriaeth broffesiynol (graddau ar sail credydau yn unig) (EdD, DBA, DClinPsy)</td><td>540 (360 ar lefel 8 y FHEQ)</td><td>540 (420 ar lefel 12 y SCQF)</td><td>540 (360 ar lefel 8 y FHEQ ac uchafswm o 30 ar lefel 6 y FHEQ)</td></tr>
</table>

<table>
<tr><th>1</th><th>2</th><th>3</th><th>4</th><th>5</th><th>6</th><th>7</th></tr>
<tr><th>Esiamplau o gymwysterau addysg uwch nodweddiadol a ddyfernir ar y gwahanol lefelau</th><th>Lefel y FHEQ[a]</th><th>Lefel y SCQF[b]</th><th>Lloegr / Gogledd Iwerddon</th><th>Yr Alban</th><th>Cymru</th><th>Yr ystodau o bwyntiau ECTS[c] yn ôl y QF-EHEA</th></tr>
<tr><td>Meistr mewn ymchwil<br>(e.e. MRes, MPhil)</td><td rowspan="7">7</td><td rowspan="7">11</td><td colspan="2">Heb gredydau fel arfer</td><td>180 (150 ar lefel 7 y FHEQ ac uchafswm o 30 ar lefel 6 y FHEQ)</td><td rowspan="4">Y gofyniad lleiaf yw 60 o bwyntiau ECTS; fodd bynnag, mae ystod o bwyntiau ECTS rhwng 90 a 100 yn fwy nodweddiadol ar lefel yr ail gylch</td></tr>
<tr><td>Graddau meistr a addysgir<br>(e.e. MA, MSc)</td><td>180 (150 ar lefel 7 y FHEQ)</td><td>180 (150 ar lefel 11 y SCQF)</td><td>180 (150 ar lefel 7 y FHEQ ac uchafswm o 30 ar lefel 6 y FHEQ)</td></tr>
<tr><td>Graddau meistr integredig (e.e. MEng, MChem, MPhys, MPharm)</td><td>480 (120 ar lefel 7 y FHEQ)</td><td>600[c] (120 ar lefel 11 y SCQF)</td><td>480 (120 ar lefel 7 y FHEQ ac uchafswm o 30 ar lefel 3 y SCQF)</td></tr>
<tr><td>Cymwysterau cynradd (neu raddau cyntaf) mewn meddygaeth, (e.e. BM BS), deintyddiaeth (e.e. BDS) a milfeddygaeth (e.e. BVSc)</td><td colspan="3">Heb gredydau fel arfer</td></tr>
<tr><td>Diplomâu ôl-raddedig</td><td>120 (90 ar lefel 7 y FHEQ)</td><td>120 (90 ar lefel 11 y SCQF)</td><td>120 (90 ar lefel 7 y FHEQ ac uchafswm o 30 ar lefel 6 y FHEQ)</td><td rowspan="3"></td></tr>
<tr><td>Tystysgrif Addysg i Raddedigion (TAR) yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon / Diploma Addysg i Raddedigion (PGDE) yn yr Alban</td><td>60 (40 ar lefel 7 y FHEQ)</td><td>60 (40 ar lefel 11 y SCQF)</td><td>120 (40 ar lefel 7 y FHEQ ac uchafswm o 80 ar lefel 6 y FHEQ)</td></tr>
<tr><td>Tystysgrifau ôl-raddedig</td><td>60 (40 ar lefel 7 y FHEQ)</td><td>60 (40 ar lefel 11 y SCQF)</td><td>60 (40 ar lefel 7 y FHEQ ac uchafswm o 20 ar lefel 6 y FHEQ)</td></tr>
</table>

| 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Esiamplau o gymwysterau addysg uwch nodweddiadol a ddyfernir ar y gwahanol lefelau** | **Lefel y FHEQ[a]** | **Lefel y SCQF[b]** | **Lloegr / Gogledd Iwerddon** | **Yr Alban** | **Cymru** | **Yr ystodau o bwyntiau ECTS[c] yn ôl y QF-EHEA** |
| Graddau baglor gydag anrhydedd (e.e. BA/BSc Anrh) | 6 | 10 | 360 (90 ar lefel 6 y FHEQ) | 480[d] (90 ar lefel 10 y SCQF) | 360 (90 ar lefel 6 y FHEQ ac uchafswm o 30 ar lefel 3 y SCQF) | Rhwng 180 a 240 o bwyntiau ECTS |
| Graddau baglor | | 9 | 300 (60 ar lefel 6 y FHEQ) | 360 (60 ar lefel 9 y SCQF) | 300 (60 ar lefel 6 y FHEQ ac uchafswm o 30 ar lefel 3 y SCQF) | |
| Tystysgrif Addysg Broffesiynol i Raddedigion (TBAR) | | — | 60 (40 ar lefel 6 y FHEQ) | Nid yw'n berthnasol | 120 (90 ar lefel 6 y FHEQ ac uchafswm o 30 ar lefel 3 y SCQF) | |
| Diplomâu i raddedigion | | 9 | 80 (80 ar lefel 6 y FHEQ) | 120 (ar lefel 9 neu'n uwch y SCQF) | 120 (90 ar lefel 6 y FHEQ ac uchafswm o 30 ar lefel 3 y SCQF) | |
| Tystysgrifau i raddedigion | | | 40 (40 ar lefel 6 y FHEQ) | 60 ar lefel 9 neu'n uwch y SCQF | 60 (40 ar lefel 6 y FHEQ ac uchafswm o 20 ar lefel 3 y SCQF) | |
| Graddau sylfaen (e.e. FdA, FdSc) | 5 | 8 | 240 (90 ar lefel 5 y FHEQ) | Nid yw'n berthnasol | 240 (90 ar lefel 5 y FHEQ ac uchafswm o 30 ar lefel 3 y SCQF) | Oddeutu 120 o bwyntiau ECTS |
| Diplomâu Addysg Uwch (DipHE) | | 8 | 240 (90 ar lefel 5 y FHEQ) | 240 (90 ar lefel 8 neu'n uwch y SCQF) | 240 (90 ar lefel 5 y FHEQ ac uchafswm o 30 ar lefel 3 y SCQF) | |
| Diplomâu Cenedlaethol Uwch (HND) a ddyfernir gan gyrff dyfarnu graddau yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon o dan drwydded Pearson | | — | 240 (90 ar lefel 5 y FHEQ) | Nid yw'n berthnasol | 240 (90 ar lefel 5 y FHEQ ac uchafswm o 30 ar lefel 3 y SCQF) | |

| 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Esiamplau o gymwysterau addysg uwch nodweddiadol a ddyfernir ar y gwahanol lefelau** | **Lefel y FHEQ[a]** | **Lefel y SCQF[b]** | **Lloegr / Gogledd Iwerddon** | **Yr Alban** | **Cymru** | **Yr ystodau o bwyntiau ECTS[c] yn ôl y QF-EHEA** |
| Tystysgrifau Cenedlaethol Uwch (HNC) a ddyfernir gan gyrff dyfarnu graddau yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon o dan drwydded Pearson | 4 | — | 150 (120 ar lefel 4 y FHEQ) | Nid yw'n berthnasol | 150 (30 ar lefel 5 y FHEQ ac uchafswm o 30 ar lefel 3 y SCQF) | |
| Tystysgrifau Addysg Uwch (CertHE) | | 7 | 120 (90 ar lefel 4 y FHEQ) | 120 (90 ar lefel 7 neu'n uwch y SCQF) | 120 (90 ar lefel 4 y FHEQ ac uchafswm o 30 ar lefel 3 y SCQF) | |

**Nodiadau am y tabl**

a Mae'r lefelau yn y FHEQ wedi eu rhifo o 4 i 8, ac mae'r rhain yn olynu lefelau 1, 2 a 3 sy'n dod cyn addysg uwch yn y Fframwaith Cymwysterau Rheoleiddiedig (RQF) a Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (FfCChC).

b Am fod y FQHEIS yn rhan o SCQF, y rhifo a geir ar gyfer y lefelau yw'r rhai sydd yn SCQF.

c ECTS yw'r acronym Saesneg am y System Casglu a Throsglwyddo Credydau Ewropeaidd.

d Mae'r cymwysterau hyn yn yr Alban flwyddyn yn hirach na'r rhai sy'n gyfatebol iddynt yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.

# Atodiad D: Disgrifiadau o ddosbarthiadau safonau graddau sydd ar lefel 6 y FHEQ neu lefel 10 y FQHEIS

## Cyflwyniad

Mae'r atodiad hwn yn rhoi disgrifiadau cyffredin o'r pedwar prif ddosbarthiad safonau graddau baglor gydag anrhydedd – 1af, 2.1, 2.2 a 3ydd. Mae'r datganiadau hyn yn adeiladu ar y disgrifyddion sydd wedi eu nodi yn y *Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch Cyrff Dyfarnu Graddau'r DU* (FHEQ) a'r *Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Sefydliadau Addysg Uwch yn yr Alban* (FQHEIS), sef y disgrifyddion ar gyfer graddau baglor gydag anrhydedd (Lefel 6 yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon; a Lefel 10 yn yr Alban).

Mae'r fframweithiau'n cynnwys y disgrifyddion cymhwyster a'r disgwyliadau sylfaenol sy'n angenrheidiol ar gyfer dyfarnu graddau baglor gydag anrhydedd (mewn geiriau eraill, gradd trydydd dosbarth) ond gyda rhai elfennau sy'n nodweddiadol o safon uwch. Mae'r datganiadau'n generig eu natur a gellir eu cymhwyso ar draws nifer o bynciau a dulliau dysgu. Ar gyfer pob cwrs astudio a phob cymhwyster, mae cyrff dyfarnu graddau ymreolaethol yn llunio ac yn cymeradwyo datganiadau penodol am y deilliannau dysgu a fwriedir.

Mae'r disgrifiad o ddosbarthiadau graddau'n disgrifio pob un o'r pedwar dosbarthiad, gan hefyd esbonio'r rhesymau pam na fydd myfyriwr wedi cyrraedd y trothwy.

Mae'r disgrifyddion hyn wedi eu hysbysu gan feini prawf unigol nifer o ddarparwyr a chanlyniadau ymgynghoriadau â myfyrwyr, darparwyr addysg uwch, cyrff PSRh ac eraill.

## Sut i ddefnyddio'r disgrifyddion hyn

Gallai'r disgrifyddion hyn fod yn ddefnyddiol wrth ddatblygu staff, cynllunio a chymeradwyo cyrsiau, ac mewn prosesau sy'n cynnwys arholwyr allanol. Nodir gwybodaeth ddigon manwl yn y disgrifyddion i hwyluso asesu ansawdd ar draws y sector mewn ffordd ddibynadwy, gan helpu i'w safoni ac i ganiatáu eu hadolygu gan gymheiriaid.

Mae'r disgrifyddion dosbarthiad yn cyfeirio at gyflawniad y myfyrwyr mewn ffordd generig – nid ydynt yn fanwl nac yn gynhwysfawr. Am eu bod yn sefydliadau ymreolaethol, mae pob rhyddid i ddarparwyr ystyried sut y gallai'r rhain helpu eu prosesau datblygu cyrsiau a sicrhau safonau.

Ni fwriedir i ddisgrifyddion pob dosbarthiad gael eu defnyddio gan sefydliadau neu gyrff rheoleiddio fel fframwaith marcio safonol. Mae sefydliadau ymreolaethol yn gyfrifol am osod eu cwricwla a'u meini prawf asesu eu hunain. Dylai darparwyr ddiffinio eu deilliannau dysgu eu hunain yn benodol i'w cyrsiau, gan roi manylion cymhlethdod y ddealltwriaeth a'r sgiliau y mae'n rhaid i'r myfyrwyr feddu arnynt er mwyn ennill gradd a dosbarthiad. Gallai darparwyr ddewis defnyddio'r disgrifyddion, ochr yn ochr â phwyntiau cyfeirio'r sector, megis Datganiadau Meincnodi Pwnc, i alinio neu hysbysu eu meini prawf ar gyfer mesur perfformiad myfyrwyr.

## Esboniad o bob un o'r dosbarthiadau

Asesir myfyrwyr yn erbyn eu cwricwla astudio, a ddylai ganiatáu iddyn nhw gyflawni'r deilliannau dysgu gofynnol a datblygu a dangos nodweddion sy'n gysylltiedig â lefel ddysgu uwch gradd baglor gydag anrhydedd. Ar y lefel fwyaf sylfaenol, mae pob dosbarthiad yn golygu bod y myfyrwyr wedi cyflawni'r nodweddion ar gyfer lefel 6 yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, a lefel 10 yn yr Alban, yn y fframweithiau perthnasol. Fel arfer, bydd hyn yn cynnwys:

- gwybodaeth a dealltwriaeth
- sgiliau gwybyddol

- sgiliau ymarferol
- sgiliau trosglwyddadwy
- cymwyseddau proffesiynol, lle bo'n berthnasol.

Lle mae angen asesu galluoedd proffesiynol y myfyriwr cyn dyfarnu gradd – er enghraifft, ar gyfer cyrsiau sydd ag achrediad cyrff PSRh – ni roddir dyfarniad o'r fath os nad yw'r myfyriwr yn dangos y galluoedd gofynnol i fod yn gymwys.

Penderfynir ar ddosbarthiad myfyriwr gan eu lefel cyrhaeddiad trwy gyfeiriad at y Fframwaith cenedlaethol perthnasol, a esbonnir gan y disgrifyddion hyn, a'u hymgysylltiad eu hunain â'r cwricwla a'r cyfleoedd dysgu a gynigir er mwyn gwella eu gallu i ddefnyddio'r sgiliau, y dulliau a'r technegau y maent wedi eu dysgu i adolygu, atgyfnerthu, ymestyn a chymhwyso eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth, ac i gychwyn a gwneud prosiectau. Asesir myfyrwyr drwy gydol eu cwrs gradd yn erbyn meini prawf marcio a osodir ar lefel y cwrs yn unol â'r pwyntiau hyn sy'n cyfeirio at y sector. Pan ddyfernir gradd, gellir disgwyl bod graddedigion wedi dangos ac yn meddu ar y sgiliau a'r priodoleddau sy'n berthnasol i'w dosbarthiad penodol, fel y disgrifir isod.

| Aflwyddiannus | Gradd anrhydedd trydydd dosbarth (3ydd) | Gradd anrhydedd ail ddosbarth is (2.2) | Gradd anrhydedd ail ddosbarth uwch (2.1) | Gradd anrhydedd dosbarth cyntaf (1af) |
|---|---|---|---|---|
| **Mae'r myfyrwyr wedi methu cyflawni deilliannau dysgu gofynnol y cwrs ac:** | **Mae'r myfyrwyr wedi cyflawni holl ddeilliannau dysgu gofynnol y cwrs ac:** | **Mae'r myfyrwyr wedi cyflawni holl ddeilliannau dysgu gofynnol y cwrs ac:** | **Mae'r myfyrwyr wedi cyflawni holl ddeilliannau dysgu gofynnol y cwrs ac:** | **Mae'r myfyrwyr wedi cyflawni holl ddeilliannau dysgu gofynnol y cwrs ac:** |
| …wedi methu dangos yn gyson bod ganddynt ddigon o wybodaeth a dealltwriaeth, sgiliau gwybyddol, ymarferol a throsglwyddadwy | …wedi dangos bod ganddynt wybodaeth a dealltwriaeth, a sgiliau gwybyddol, ymarferol a throsglwyddadwy | …wedi dangos bod ganddynt wybodaeth a dealltwriaeth, sgiliau gwybyddol, ymarferol a throsglwyddadwy o safon dda | …wedi dangos bod ganddynt wybodaeth a dealltwriaeth drwyadl, a sgiliau gwybyddol, ymarferol a throsglwyddadwy sy'n drwyadl | …wedi dangos yn gyson bod ganddynt wybodaeth a dealltwriaeth, sgiliau gwybyddol, ymarferol a throsglwyddadwy o safon uwch |
| …wedi methu dangos blaengaredd ac wedi methu cymryd cyfrifoldeb personol o safon ddigonol, mewn ffordd gyson | …wedi dangos blaengaredd ac wedi cymryd cyfrifoldeb personol | …wedi dangos blaengaredd ac wedi cymryd cyfrifoldeb personol | …wedi dangos blaengaredd ac wedi cymryd cyfrifoldeb personol o safon dda | …wedi dangos blaengaredd ac wedi cymryd cyfrifoldeb personol o safon ragorol, mewn ffordd gyson |
| …wedi methu dangos yn gyson eu bod yn gallu myfyrio ar eu gwaith | …wedi dangos rhywfaint o allu i fyfyrio ar eu gwaith | …wedi dangos eu bod yn gallu myfyrio ar eu gwaith | …wedi dangos eu bod yn gallu myfyrio'n feirniadol ar eu gwaith | …wedi dangos yn gyson eu bod yn gallu myfyrio'n feirniadol ac yn annibynnol ar eu gwaith |
| …wedi methu dangos yn gyson bod ganddynt sgiliau datrys problemau | …wedi dangos sgiliau datrys problemau | …wedi dangos sgiliau da mewn datrys problemau | …wedi dangos sgiliau trwyadl mewn datrys problemau | …wedi dangos yn gyson bod ganddynt sgiliau rhagorol mewn datrys problemau |

Mae'r defnydd a wneir o'r esiamplau hyn wedi ei ddisgrifio'n fwy manwl isod.

### Graddau cyffredin

Yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, mae cyrsiau gradd anrhydedd llawn amser fel arfer yn digwydd dros dair blynedd; yn yr Alban, maen nhw'n digwydd dros bedair blynedd. Waeth pa fodel a ddilynir, gall darparwyr ganiatáu i'w myfyrwyr astudio nifer ychydig yn is o gredydau a chyflawni gradd gyffredin (a osodir ar lefel 6 yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon; a lefel 10 yn yr Alban). Gellir eu cynnig fel cymwysterau yn eu rhinwedd eu hunain – er enghraifft, pan fydd myfyrwyr yn methu eu blwyddyn gyntaf o ychydig bach gallant drosglwyddo i radd gyffredin.

Mae'r myfyrwyr sydd wedi cwblhau cwrs gradd gyffredin yn derbyn y marciau 'wedi pasio'/'teilyngdod'/'rhagoriaeth' neu 'wedi methu' – nid yw'r rhain yn cael eu dosbarthu yn yr un ffordd â graddau anrhydedd. Mae graddau cyffredin yn cael eu strwythuro mewn nifer o ffyrdd ac mae'r modelau nodweddiadol yn cynnwys gradd gyffredinol lle mae'r pwyslais ar ehangder yn hytrach na dyfnder yr astudio, neu radd benodol lle bydd y prif faes astudio wedi ei bennu yn nheitl y dyfarniad a/neu drawsgrifiad y myfyriwr.

Mae graddau cyffredin yn cael eu dyfarnu weithiau i fyfyrwyr sy'n astudio ar gyrsiau gradd anrhydedd lawn ond nad ydynt yn llwyddo ymhob asesiad.

### Graddau 'wedi pasio'

Yng Nghymru a Lloegr, gellir rhoi gradd Pasio i fyfyrwyr sy'n astudio ar gyrsiau gradd anrhydedd llawn amser ond nad ydynt yn ennill pob un o'r credydau sy'n ofynnol. Nid yw graddau 'pasio' wedi eu dosbarthu, ac nid ydynt yn cael eu cynnig fel cymwysterau yn eu rhinwedd eu hunain fel y mae'r radd gyffredin.

## Disgrifyddion manwl

Mae'r tablau isod yn disgrifio'n fanwl sut y gall y priodoleddau graddedig cyffredinol y mae myfyrwyr yn eu cael yn ystod eu cyrsiau fod yn berthnasol ar draws y gwahanol feysydd sgiliau, cymwyseddau a phriodoleddau.

O anghenraid, mae cyrsiau'n amrywio yn yr hyn y maen nhw'n eu hasesu a sut y cânt eu hasesu, yn dibynnu ar ofynion y pwnc. Efallai na fydd y gwahanol nodweddion yn cael eu hasesu'n gyfartal – mae pob rhyddid i ddarparwyr gynllunio eu cyrsiau gyda'r asesiad wedi ei bwysoli tuag at sgiliau arbennig, fel y maent yn eu hystyried yn briodol, er mwyn cwrdd â'r deilliannau dysgu gofynnol.

Mae'r meini prawf isod yn cyflwyno trosolwg cyfannol o'r lefel y byddai disgwyl i rywun graddedig ei gyrraedd yn ystod eu cwrs gradd. Ni fydd pob disgrifydd yr un mor berthnasol i bob cwrs: er enghraifft, efallai na fydd sgiliau rhifedd a sgiliau digidol yr un mor briodol i'w cymhwyso i rai o'r cyrsiau yn y celfyddydau ag y byddai sgiliau creadigol, ac efallai y byddai'r gwrthwyneb yn wir mewn rhai o'r meysydd astudio STEM. Os nad yw rhai o'r meini prawf yn berthnasol i gwrs penodol, ni fydd angen cyfeirio at y meini prawf hynny wrth gynllunio cyrsiau.

### Gwybodaeth a dealltwriaeth

Dealltwriaeth systematig, eang a chymharol o agweddau allweddol o'r maes astudio, gan gynnwys gwybodaeth drefnus a manwl o'r pwnc a dealltwriaeth feirniadol o ddamcaniaethau a chysyniadau, y mae o leiaf rhywfaint ohonynt yn ymwneud ag agweddau diffiniedig o'r datblygiadau diweddaraf un yn y maes astudio

| Aflwyddiannus | 3ydd (marc pasio / trothwy) | 2.2 | 2.1 | 1af |
|---|---|---|---|---|
| Nid yw'r myfyrwyr yn meddu ar ddigon o wybodaeth a dealltwriaeth o'r pwnc, nid oes ganddynt yr ehangder a'r dyfnder gofynnol, ac mae diffygion mewn meysydd allweddol. | Mae'r myfyrwyr wedi dangos dyfnder gwybodaeth a dealltwriaeth o agweddau allweddol o'u maes astudio, yn ddigonol i ymdrin â thermau, ffeithiau a chysyniadau. | Mae'r myfyrwyr wedi dangos lefel dda o ehangder a dyfnder gwybodaeth a dealltwriaeth o'r pwnc, er eu bod weithiau'n gwyro tuag at y disgrifiadol yn hytrach na'r beirniadol neu'r dadansoddol. | Mae'r myfyrwyr wedi dangos lefel soffistigedig o ehangder a dyfnder gwybodaeth a dealltwriaeth, ac yn dangos mewnwelediad beirniadol a chlir. | Mae'r myfyrwyr wedi dangos gwybodaeth a dealltwriaeth ragorol, ymhell y tu hwnt i'r safonau trothwy y disgwylir i rywun sydd wedi graddio ar y lefel hon eu cyrraedd a thu hwnt i'r hyn a addysgwyd. |
| Nid yw'r myfyrwyr wedi dangos dealltwriaeth ddigonol o ddamcaniaethau, paradeimau, cysyniadau ac egwyddorion sy'n berthnasol i'r pwnc penodol, yn cynnwys dealltwriaeth o amwysedd a ffiniau'r wybodaeth. | Mae'r myfyrwyr wedi dangos dealltwriaeth o ddamcaniaethau, paradeimau, cysyniadau ac egwyddorion sy'n berthnasol i'r pwnc penodol. | Mae'r myfyrwyr wedi dangos yn gyson bod ganddynt ddealltwriaeth o ddamcaniaethau, paradeimau, cysyniadau ac egwyddorion sy'n berthnasol i'r pwnc penodol, yn ogystal â meysydd mwy arbenigol. | Mae'r myfyrwyr wedi dangos dealltwriaeth drwyadl o ddamcaniaethau, paradeimau, cysyniadau ac egwyddorion sy'n berthnasol i'r pwnc penodol, a dealltwriaeth dda o feysydd mwy arbenigol. | Mae'r myfyrwyr wedi dangos dealltwriaeth ragorol o ddamcaniaethau, paradeimau, cysyniadau ac egwyddorion sy'n berthnasol i'r pwnc penodol, a gwybodaeth fanwl o amrywiaeth o feysydd arbenigol, neu hyd yn oed feistrolaeth arnynt. |
| Nid yw'r myfyrwyr wedi cynhyrchu digon o dystiolaeth i ddangos eu bod wedi archwilio, dadansoddi, ymchwilio, ymholi ac/neu astudio'r cefndir. | Mae'r myfyrwyr wedi archwilio, dadansoddi, ymchwilio, ymholi ac/neu astudio'r cefndir cyffredinol, gan ddefnyddio technegau sefydledig, a gall dynnu pwyntiau perthnasol allan. | Mae'r myfyrwyr wedi archwilio, dadansoddi, ymchwilio, ymholi ac/neu astudio'r cefndir, gan ddefnyddio technegau sefydledig mewn ffordd gywir, ac maent yn gallu gwerthuso ffynonellau academaidd yn feirniadol. | Mae'r myfyrwyr wedi archwilio, dadansoddi, ymchwilio, ymholi ac/neu astudio'r cefndir mewn ffordd drwyadl, gan ddefnyddio technegau sefydledig mewn ffordd gywir, ac maent yn meddu ar allu datblygedig i werthuso amrywiaeth eang o ffynonellau'n feirniadol. | Mae'r myfyrwyr wedi gwneud gwaith archwilio, dadansoddi, ymchwilio, ymholi ac/neu astudio, gan werthuso'n feirniadol ymhell y tu hwnt i'r arferol, mewn ffordd annibynnol, eang a phriodol, er mwyn symud y gwaith yn ei flaen a/neu lywio dadleuon. |

## Sgiliau gwybyddol

Dealltwriaeth o gysyniadau sy'n galluogi i'r myfyriwr lunio ac ymgynnal dadleuon a/neu ddatrys problemau a rhoi sylwadau am waith ymchwil ac arferion addysgol yn y maes astudio, gydag ystyriaeth o ansicrwydd, amwysedd a ffiniau gwybodaeth.

| Aflwyddiannus | 3ydd (marc pasio / trothwy) | 2.2 | 2.1 | 1af |
|---|---|---|---|---|
| Mae'r myfyrwyr wedi dangos gor-ddibyniaeth ar ffynonellau gosodedig. Maent wedi methu dangos gallu digonol i ddethol a gwerthuso deunyddiau darllen ac ymchwil. | Mae'r myfyrwyr wedi dangos eu bod yn gallu dethol a gwerthuso deunyddiau darllen ac ymchwil a ffynonellau cynradd, a rhoi sylwadau amdanynt. | Mae'r myfyrwyr wedi dethol a gwerthuso deunyddiau darllen ac ymchwil a ffynonellau cynradd, ac wedi rhoi sylwadau amdanynt, a hynny weithiau y tu hwnt i'r ystod osodedig. | Mae'r myfyrwyr wedi dethol deunyddiau darllen ac ymchwil a ffynonellau cynradd, a'u gwerthuso'n feirniadol a rhoi sylwadau amdanynt mewn ffordd drwyadl, a hynny fel arfer y tu hwnt i'r ystod osodedig. | Mae'r myfyrwyr wedi dangos gallu rhagorol i ddethol amrywiaeth eang o ddeunyddiau ymchwil, ffynonellau cynradd, gwybodaeth a safbwyntiau, a'u hystyried, eu gwerthuso a'u cyfuno, a rhoi sylwadau amdanynt gan integreiddio cyfeiriadau. |
| Mae dadleuon ac esboniadau'r myfyrwyr yn wan ac/neu wedi eu strwythuro'n wael, ac nid ydynt yn gallu gwerthuso dadleuon pobl eraill yn feirniadol neu ystyried safbwyntiau eraill. | Mae'r myfyrwyr wedi dangos eu bod yn gallu llunio ac ymgynnal dadl, gan roi rhywfaint o ystyriaeth i safbwyntiau eraill, ac maent yn gallu esbonio materion a syniadau sydd yn aml yn gymhleth. | Mae'r myfyrwyr wedi dadlau'n rhesymegol, gan roi tystiolaeth ategol, ac wedi dangos y gallu i ystyried a gwerthuso amrywiaeth o wybodaeth a safbwyntiau. Maent wedi esbonio materion a syniadau cymhleth mewn ffordd glir a chyson. | Mae'r myfyrwyr wedi dangos y gallu i lunio dadleuon cydlynol sydd wedi eu hategu gan dystiolaeth, a hefyd y gallu i ystyried, gwerthuso'n feirniadol a chyfuno amrywiaeth o wybodaeth a safbwyntiau. Maent wedi dehongli materion a syniadau cymhleth mewn ffordd drwyadl, sylwgar a meddylgar. | Mae'r myfyrwyr wedi llunio dadleuon cyson, rhesymegol, cydlynol a datblygedig sydd wedi eu hategu gan dystiolaeth, gan ddangos y gallu i ystyried, gwerthuso'n feirniadol a chyfuno amrywiaeth eang o wybodaeth a safbwyntiau mewn ffordd systematig. Maent wedi dangos y gallu i ddehongli materion a syniadau cymhleth mewn ffordd soffistigedig, feirniadol a sylwgar. |
| Mae'r myfyrwyr wedi dangos gallu cyfyngedig i ddatrys problemau a/neu wneud penderfyniadau. | Mae'r myfyrwyr wedi dangos y gallu i ddatrys problemau, gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau, a'r gallu i wneud penderfyniadau o dan amgylchiadau cymhleth na ellir eu rhagweld. | Mae'r myfyrwyr wedi datrys problemau cymhleth mewn ffordd gyson, gan ddethol a defnyddio amrywiaeth o ddulliau priodol, ac maent yn gallu gwneud penderfyniadau o dan amgylchiadau cymhleth na ellir eu rhagweld. | Mae'r myfyrwyr wedi dangos sgiliau trwyadl mewn datrys problemau, gan ddethol amrywiaeth eang o ddulliau a rhoi rhesymau i gyfiawnhau eu defnyddio, ac maent yn gallu gwneud penderfyniadau o dan amgylchiadau cymhleth na ellir eu rhagweld, gyda rhyw lefel o ymreolaeth. | Mae'r myfyrwyr wedi dangos amrywiaeth eang o sgiliau hynod ddatblygedig mewn datrys problemau, yn ogystal â dawn gref i wneud penderfyniadau gyda lefel uchel o ymreolaeth, o dan yr amgylchiadau mwyaf cymhleth na ellir eu rhagweld. |
| Nid yw'r myfyrwyr wedi dangos creadigedd go iawn, neu fawr ddim creadigedd. | Mae'r myfyrwyr wedi cynhyrchu rhywfaint o waith creadigol. | Mae'r myfyrwyr wedi dangos creadigedd yn gyson. | Mae'r myfyrwyr wedi dangos lefel uchel o greadigedd a gwreiddioldeb drwy gydol eu gwaith. | Mae'r myfyrwyr wedi dangos creadigedd a gwreiddioldeb o safon ragorol. |

## Sgiliau ymarferol

Y gallu i reoli eu dysgu unigol eu hunain a'r gallu i wneud defnydd cywir o dechnegau dadansoddi ac ymholi sydd wedi eu sefydlu'n dda yn y maes astudio neu fel y bo'n angenrheidiol ar gyfer y maes astudio.

| Aflwyddiannus | 3ydd (marc pasio / trothwy) | 2.2 | 2.1 | 1af |
|---|---|---|---|---|
| Nid yw'r myfyrwyr wedi dangos digon o dystiolaeth eu bod wedi datblygu neu ddefnyddio eu sgiliau pwnc-benodol. | Mae'r myfyrwyr wedi dangos tystiolaeth eu bod wedi datblygu a defnyddio eu sgiliau pwnc-benodol arbenigol. | Mae'r myfyrwyr wedi dangos yn gyson eu bod wedi datblygu eu sgiliau pwnc-benodol arbenigol a'u defnyddio mewn ffordd wybodus. | Mae'r myfyrwyr wedi dangos eu bod wedi defnyddio/dangos eu sgiliau pwnc-benodol arbenigol mewn ffordd fedrus ac effeithiol. | Mae'r myfyrwyr wedi dangos eu bod yn gallu defnyddio eu sgiliau pwnc-benodol arbenigol mewn ffordd fedrus ac arloesol. |
| Mae'r myfyrwyr wedi rhoi cynnig ar dasgau/prosesau ymarferol, ond maent wedi dilyn dull cyfyngedig, trefniadol neu fecanistig, ac mae eu gwaith yn cynnwys gwallau, heb ddangos unrhyw annibyniaeth, neu fawr ddim annibyniaeth. | Mae'r myfyrwyr wedi cwblhau tasgau a/neu brosesau ymarferol mewn ffordd gywir a gyda rhyw lefel o annibyniaeth. | Mae'r myfyrwyr wedi cwblhau pob tasg/proses ymarferol, yn annibynnol fel arfer, mewn ffordd gywir, gydlynol a thra medrus. | Mae'r myfyrwyr wedi gwneud tasgau a/neu brosesau ymarferol mewn ffordd ymreolaethol, gywir a chydlynol. | Mae'r myfyrwyr wedi cwblhau tasgau a/neu brosesau ymarferol mewn ffordd ymreolaethol, hynod gywir, gydlynol a medrus. |
| Mae'r myfyrwyr wedi dangos diffyg sgiliau technegol, creadigol a/neu gelfydd yn y rhan fwyaf o'r meysydd, neu yn y meysydd allweddol. | Mae'r myfyrwyr wedi dangos sgiliau technegol, creadigol a/neu gelfydd. | Mae'r myfyrwyr wedi dangos yn gyson bod ganddynt sgiliau technegol, creadigol a/neu gelfydd o safon ddatblygedig. | Mae'r myfyrwyr yn meddu ar sgiliau technegol, creadigol a/neu gelfydd o safon dda sy'n hynod ddatblygedig a pherthnasol. | Mae gan y myfyrwyr amrediad cyflawn o sgiliau technegol, creadigol a/neu gelfydd o safon ragorol. |
| Nid yw'r myfyrwyr wedi cyflwyno canfyddiadau eu gwaith ymchwil mewn ffordd glir neu effeithiol, ac mae'r ffordd y maent wedi casglu, prosesu a dehongli data'n anfoddhaol. | Mae'r myfyrwyr wedi cyflwyno canfyddiadau eu gwaith ymchwil mewn nifer o fformatau, ac wedi casglu, prosesu a dehongli data mewn ffordd effeithiol. | Mae'r myfyrwyr wedi cyflwyno canfyddiadau eu gwaith ymchwil mewn ffordd gyson, effeithiol a phriodol, mewn amrywiaeth o fformatau, ac wedi casglu, prosesu a dehongli data'n effeithlon ac yn effeithiol. | Mae'r myfyrwyr wedi cyflwyno canfyddiadau gwaith ymchwil trwyadl mewn ffordd sylwgar a phriodol, mewn amrywiaeth eang o fformatau, ac wedi casglu, prosesu a dehongli amrywiaeth eang o ddata cymhleth yn effeithlon ac yn effeithiol. | Mae'r myfyrwyr wedi cyflwyno canfyddiadau gwaith ymchwil mewn ffordd sylwgar, argyhoeddiadol a phriodol, mewn amrywiaeth eang o fformatau, ac wedi casglu, prosesu a dehongli amrywiaeth eang o ddata cymhleth yn effeithlon ac yn effeithiol. |

## Sgiliau trosglwyddadwy

Sgiliau personol a sgiliau galluogi sy'n briodol i'r maes astudio, yn cynnwys y gallu i gyfleu gwybodaeth, syniadau, problemau ac atebion i arbenigwyr ac i gynulleidfa fwy cyffredinol; dangos blaengaredd a chymryd cyfrifoldeb personol; a gwneud penderfyniadau mewn cyd-destunau cymhleth na ellir eu rhagweld.

| Aflwyddiannus | 3ydd (marc pasio / trothwy) | 2.2 | 2.1 | 1af |
|---|---|---|---|---|
| Nid yw'r myfyrwyr yn gallu mynegi syniadau a chyfleu ystyr yn ddigon eglur ar lafar, yn electronig a/neu'n ysgrifenedig, ac maent yn defnyddio termau gwallus, gyda gwallau niferus mewn sillafu, geirfa a chystrawen. Nid yw'r myfyrwyr wedi gallu dangos sgiliau sylfaenol mewn llythrennedd digidol a rhifedd yn gyson. | Mae'r myfyrwyr yn gallu cyfleu gwybodaeth, syniadau, problemau ac atebion ar lafar, yn electronig ac yn ysgrifenedig, gan ddangos mynegiant ac arddull eglur. Hefyd, maent wedi dangos sgiliau rhifedd a sgiliau llythrennedd digidol. | Gall y myfyrwyr gyfleu gwybodaeth, syniadau, problemau ac atebion mewn ffordd gyson a hyderus, ar lafar, yn electronig ac yn ysgrifenedig. Maent wedi dangos arddull eglur, cydlynol a mynegiannol, gan ddefnyddio amrywiaeth o eirfa. Maent wedi dangos sgiliau da mewn llythrennedd digidol a rhifedd yn gyson. | Mae'r myfyrwyr yn gallu cyfleu gwybodaeth, syniadau, problemau ac atebion mewn ffordd dra medrus, ar lafar, yn electronig ac yn ysgrifenedig. Maent wedi dangos arddull eglur, rugl a mynegiannol, gan ddefnyddio geirfa addas. Maent yn meddu ar sgiliau rhifedd a sgiliau llythrennedd digidol o safon uchel. | Mae'r myfyrwyr yn gallu cyfleu gwybodaeth, syniadau, problemau ac atebion mewn ffordd fedrus, ar lafar, yn electronig ac yn ysgrifenedig. Maent wedi dangos arddull gywir, rugl a soffistigedig. Maent yn meddu ar sgiliau rhagorol mewn llythrennedd digidol a rhifedd. |
| Mae'r myfyrwyr wedi gwneud cyfraniadau prin i drafodaethau grŵp a/neu waith prosiect. | Mae'r myfyrwyr wedi dangos y gallu i wneud cyfraniadau defnyddiol i waith prosiect a/neu drafodaethau grŵp. | Mae'r myfyrwyr wedi dangos y gallu i wneud cyfraniadau cydlynol ac adeiladol yn gyson i drafodaethau grŵp a/neu waith prosiect. | Mae'r myfyrwyr wedi dangos y gallu i wneud cyfraniadau da a gwerthfawr i drafodaethau grŵp a/neu waith prosiect, a dealltwriaeth o rolau mewn tîm a rolau arwain. | Mae'r myfyrwyr wedi dangos y gallu i wneud cyfraniadau eglur, awdurdodol a gwerthfawr i drafodaethau grŵp a/neu waith prosiect, ac wedi dangos sgiliau gwaith tîm a sgiliau arwain. |
| Nid yw'r myfyrwyr wedi dangos unrhyw allu, neu fawr ddim gallu, i reoli eu dysgu a/neu weithio heb oruchwyliaeth. | Mae'r myfyrwyr wedi dangos y gallu i reoli eu dysgu a gweithio heb oruchwyliaeth o gwbl, neu fawr ddim oruchwyliaeth. | Mae'r myfyrwyr wedi dangos yn gyson eu bod yn gallu rheoli eu dysgu a gweithio mewn ffordd systematig heb oruchwyliaeth. | Mae'r myfyrwyr wedi dangos gallu da i reoli eu dysgu a gweithio mewn ffordd systematig heb oruchwyliaeth. | Mae'r myfyrwyr wedi dangos gallu rhagorol i reoli eu dysgu ar eu pennau eu hunain, ac i weithio heb oruchwyliaeth. |
| Nid yw'r myfyrwyr wedi dangos blaengaredd neu gyfrifoldeb personol digonol. | Mae'r myfyrwyr wedi dangos blaengaredd a/neu gyfrifoldeb personol. | Mae'r myfyrwyr wedi dangos blaengaredd a/neu gyfrifoldeb personol yn gyson. | Mae'r myfyrwyr wedi dangos blaengaredd datblygedig a/neu gyfrifoldeb personol yn gyson. | Mae'r myfyrwyr wedi dangos blaengaredd a/neu gyfrifoldeb personol o safon ragorol. |
| Nid yw'r myfyrwyr wedi dangos unrhyw allu, neu fawr ddim gallu, i fyfyrio ar eu gwaith. | Mae'r myfyrwyr wedi dangos y gallu i fyfyrio ar eu gwaith. | Mae'r myfyrwyr wedi dangos gallu datblygedig i fyfyrio ar eu gwaith yn gyson. | Mae'r myfyrwyr wedi dangos y gallu i fyfyrio'n feirniadol ar eu gwaith. | Mae'r myfyrwyr wedi dangos gallu rhagorol i fyfyrio'n feirniadol ac yn annibynnol ar eu gwaith. |

### Cymwyseddau proffesiynol (i'r graddau y cânt eu mynegi gan ddeilliannau dysgu'r cwrs)

Y gofynion proffesiynol penodol a'r gallu penodol i ddysgu sydd ei angen i wneud hyfforddiant pellach priodol o natur broffesiynol neu gyfatebol. Lle mae angen asesu galluoedd proffesiynol y myfyriwr cyn dyfarnu gradd, ni roddir dyfarniad sydd ag achrediad corff PSRh os nad yw'r myfyriwr yn dangos y galluoedd gofynnol i fod yn gymwys.

<table>
<tr><th>Aflwyddiannus</th><th>3ydd (marc pasio / trothwy)</th><th>2.2</th><th>2.1</th><th>1af</th></tr>
<tr><td>Nid yw'r myfyrwyr wedi dangos y gallu i gyflawni'r cymhwysedd proffesiynol wrth gael eu hasesu yn erbyn gofynion corff proffesiynol, statudol neu reoleiddio.</td><td colspan="4">Mae'r myfyrwyr wedi dangos y gallu i gyflawni'r cymhwysedd proffesiynol wrth gael eu hasesu yn erbyn gofynion corff proffesiynol, statudol neu reoleiddio.</td></tr>
<tr><td>Mae'r myfyrwyr wedi methu cadw at y rheolau a/neu gonfensiynau perthnasol a bennir gan gyrff rheoleiddio neu'r diwydiant.</td><td colspan="4">Mae'r myfyrwyr wedi cadw at y rheolau a/neu gonfensiynau perthnasol a bennir gan gyrff rheoleiddio neu'r diwydiant.</td></tr>
</table>

© Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch 2024
Southgate House, Southgate Street, Caerloyw, GL1 1UB
Rhifau elusen gofrestredig 1062746 ac SC037786

Ffôn: 01452 557000
Gwefan: [www.qaa.ac.uk](http://www.qaa.ac.uk)